

ECO'R WYDDFA

Rhif 152

TACHWEDD 1989

Pris 20c

PONT

Cynhelir cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaen, am 7.30, nos Lun, Hydref 30ain. Byddwn yn trafod dulliau o ddysgu Cymraeg i'r rhai di-Gymraeg ym Mhenisarwaen.

Un dull dan sylw yw Grwpiau Sgwrsio. Os credwch y gallwch fod o gymorth, dowch i'r cyfarfod, neu rhwch eich henwau i:

Jim Woodcock, Llanberis 870121

Tony Elliott, Llanberis 872438

Les Larsen, Llanberis 870533

CYNLLUN GLYN RHONWY

ARFON AM WNEUD CAIS I'R _ O BLAID - 16 YN ERBYN - 14

SWYDDFA GYMREIG

LLWYDDIANT BAND DEINIOLEN



Band Deiniolen yn eu lifrai newydd, gyda'u harweinydd, Mr Graham Saunders, a ddaeth â chlod, nid yn unig i'r ardal, ond i Ogledd Cymru'n ddiweddar, yn dilyn perfformiad arbennig yn Llundain yng nghystadlaethau Bandiau Prës Prydain. Daeth y Band yn wythfed allan o saith ar hugain o fandiau, gyda chanmoli-aeth uchel gan y beirniaid. Bu eleni yn flwyddyn lwyddiannus iawn i'r Band, oherwydd i'r Band leuenctid ddod yn fuddugol yn Llanwrst hefyd.

YMDDIHEURIAD

Oherwydd nam technegol, collwyd nifer o luniau a oedd wedi eu tynnu gogyfer â'r rhifyn hwn o'r Eco. Yn eu plith roedd yr holl luniau a dynnwyd o Noson Deyrnged Selwyn Griffith, a hefyd nifer o ddigwyddiadau eraill o fewn y fro. Roedd yn bosibl cael ail gyfle i dynnu rhai o'r lluniau, wrth gwrs, a diolchwn i'n ffotograffwyr am drafferthu i wneud hynny. Yn anffodus, collwyd y lleill am byth. Ymddiheurwn i'r rhai hynny a oedd wedi mynd i'r drafferth i drefnu tynnu llawer o'r lluniau aeth i ebargofiant!

**GYDA DIOLCH I DRIGOLION
Y WAUNFAWR AM BLYGU'R
RHIFYN HWN O'R ECO**

CROESI CYMRU



Lowri Pritchard o Lanrug yn derbyn sicr am £1070 oddi wrth Elidir, Dafydd, Alan a Merfyn wedi iddynt gwblhau taith gerdded o dros 200 milltir i godi arian i Apêl Lowri. Cychwynnodd y pedwar ar eu taith o Abergwyngregyn, gan groesi mynyddoedd Eryri, a cherdded ar hyd 'asgwrn cefn' mynyddoedd Cymru nes diweddur daith ger Abertawe. Cyflwynwyd y sicr i 'Apêl Lowri' yn nhafarn Penbont, Llanrug. Yn y llun hefyd mae Beryl Roberts, un o brif drefnwyr yr Apêl.

Prif Lenorion Eisteddfod Bentref Llanrug gyda genethod y ddawns flodau. Darllenwch eu gwaith buddugol ar dudalen 10.

Dyna'r canlyniad ar ddiwedd awr a hanner o drafod a dadlau yn Siambr newydd Cyngor Arfon, nos Lun, Hydref 23ain.

Drigolion bro'r 'Eco', cofiwch y dyddiad hwn. Gallai fod y dyddiad mwyaf arwyddocaol yn hanes Cymreictod ein bro. Gallai olygu dechrau'r diwedd i gymdeithas Gymreig, i ddiwylliant Gymreig ac i'r iaith Gymraeg o fewn ein bro.

Mae Esau wedi ymestyn ei ddwylo blewog i gyfeiriad y Swyddfa Gymreig, ac wedi ymgreinio i gyfalafiaeth ariangar de Lloegr er mwyn blasu mymryn o gawl ffacbus.

Mae un ar bymtheg o gynghorwyr Arfon wedi mynnu diystyru barn pobl leol y fro hon. Maent wedi anwybyddu gwrthwynebiad y tri chyngor Cymuned lleol. Maent wedi troi clust fyddar i bryderon y Cyngor Sir, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Y Comisiwn Cefn Gwlad a swyddogion Bwrdd Twristiaid Cymru. A'r cyfan oherwydd eu bod ofn colli wyneb, a'u bod yn ofni i Gyngor Arfon golli ei hygredd.

Mewn colofn arall ar y dudalen hon mae sôn am sefydlu PONT ym Mhenisarwaen oherwydd fod cynifer o drigolion di-Gymraeg yn yr ardal. Yn sgîl cynllun Glyn Rhonwy, disgwylir dwy filiwn (ie, 2,000,000) o ymwelwyr. Sawl PONT fydd ei angen wedyn? Y

perygl fydd i'r holl bontydd gael eu dymchwel gan orlif y mewnlifiad ac i Gymreictod y dyffryn gael ei sgubo ymaith i ebargofiant.

Mae Papurau Bro dros y blynyddoedd wedi bod yn eithaf diduedd eu barn, gan gofnodi y digwyddiadau cyffredin a 'neis-neis' o fewn eu dalgylch. Y tro hwn, mae'n ddyletswydd ar yr 'Eco' i floeddio 'CYWILYDD' yn wyneb y cynghorwyr rheini sydd mor barod i werthu ein genedigaeth frain i ddatblygwyr estron.

Y mae'n gymaint dyletswydd arnom hefyd i GANMOL ac i GYMERADWYO y cynghorwyr a bleidleisiodd yn erbyn gwneud cais cynllunio i'r Swyddfa Gymreig (Adroddiad llawn ar dudalen 17)

DYLAN A DAFYDD PRIF LENORION LLANRUG



ECO'R WYDDFA

**RHIF 152
TACHWEDD 1989**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
TACHWEDD 21
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

SIOP AR SAFLE NEWYDD

Cartref,
Ffordd Deiniol,
Bangor

Annwyl Syr,

Mae y Siop Lyfrau Gristnogol
oedd yn Cae Ffynnon, Bangor
bellach wedi symud i 'Donniau
Cudd', 25 Ffordd y Garth, sy'n
arwain i'r pier.

Ceir ynddi gyflenwad o
Feibla, Testamentau, esboni-
adau ar holl lyfrau'r Beibl, Llyfrau
Emynau, llyfrau diddorol am
arwyr mawr y Ffydd, am gen-
hadon ddod a heddiw, llyfrau
plant ac ieuencid, heblaw llawer
o fân bethau fel cylchgronau, car-
diau, bathodynau ac ati.

Mae'r siop yn agored o ddydd
Mawrth hyd ddydd Sadwrn o
9.30am hyd 5.30pm

Os am fwy o wybodaeth cysyll-
ter â Bangor 353386.

Yr eiddoch yn gywir

Ioan Davies

Apêl am Gystadleuwyr

Annwyl Olygydd,

Hoffwn brocio meddwl darpar
gystadleuwyr yn Adran
Llenyddiaeth Eisteddfod
Genedlaethol Cymru, Cwm
Rhymni i fwrw iddi gyda'u
gwaith. Mae 5 cystadleuaeth yn
Adran Gwobrau Llys yr
Eisteddfod Genedlaethol. 'Rwy'n
byw mewn gobaith fod y nofel-
wyr wedi ymateb i Wobr Goffa
Daniel Owen eleni. Mae'r gys-
tadleuaeth yn haeddu eu cefno-
gaeth.

15 cystadleuaeth sydd yn yr
adran farddoniaeth. Mae rhyw-
beth at ddant pob bardd cys-
tadleuol ynddi.

Er enghraifft: Englyn: Brawd
neu Chwaer, Beirniad - J Eirian
Davies; Cywydd Gofyn: Sefydlu
Ysgol Gymraeg, Beirniad -
James Nicholas; Dilyniant o 3
telyneg: Creithiau, Beirniad -
Nesta Wyn Jones; Cerdd ar fesur
rhigymau T H Parry Williams:
Cymeriad lleol neu genedlaethol,
Beirniad - John Gruffydd Jones.
Hon yn gystadleuaeth newydd.
Os gwelwch yn dda feirdd
ymatebwch.

Yn yr Adran Rhyddiaith ceir 11
cystadleuaeth. Cynigir y Fedal
Ryddiaith am gyfrol o straeon
byrion. Y beirniaid fydd Marged

Pritchard, Harri Parri a Harri
Pritchard Jones. Cystadleuaeth
ddiddorol ydy Llyfr lluniau a
straeon ysgafn yn egluro hyd at
ddeg dihareb Gymraeg ar gyfer
plant ysgol gynradd. Caniateir
Cywaith. Beirniad - Catherine
Edwards ac Elgan Davies.

Portread newyddiadurol cyfoes
fydd Dylan Iorwerth, golygydd
Golwg yn ei feirniadu. Ydy
ysgrifennu chwe erthygl yn
cyflwyno beirdd alneu lenorion
Eingl-Gymreig yn apelio atoch?
Ned Thomas fydd yn mesur a
phwyso eich gwaith.

3 Cystadleuaeth sy'n Adran
Gomisiynau'r Eisteddfod sef
Bywgraffiad Poblogaidd, Nofel
Wyddonias i rai yn eu harddegau
a Nofel Boblogaidd i oedolion:
Rhaamant Hanesyddol.

Os gwelwch yn dda feirdd a
llenorion cynorthwywch ni yng
Nghwm Rhymni.

Yn ddiffuant

Dafydd Islwyn

Cadeirydd y Pwyllgor Llên

MEDDYGINIAETHAU

Annwyl Olygydd,

Rwyf ar hyn o bryd yn paratoi
cyfres o raglenni i S4C ar ddulliau
gwahanol o iachau. Os ydych yn
gwybod am rywun sy'n iachau
mewn dull anghonfensiynol neu
wedi cael profiad eich hun o
iachau trwy homeopatheg,
acupuncture, llysieuath neu
unrhyw ddull 'gwahanol' arall
byddwn yn falch iawn o gael
clywed oddi wrthyfch.

Yn gywir iawn,

Eiry Palfrey

Taliesyn

3 Sgwâr Mount Stuart

Caerdydd

RECORDIAD HANESYDDOL

Ers rhai blynyddoedd, bu llawer o
Gymry'n holi pryd y byddai trad-
dodiad cerddorol cyfoethog yr
Eglwys Uniongred ar gael i'w gly-
wed yn y Gymraeg ar gaset.

Eleni, y mae Cantorion
Enddwyn (Bro Ardudwy) wedi
recordio 'Offeren Ddwylol' yr
Eglwys Uniongred. Dyma'r tro
cyntaf erioed i'r cyfansoddiadau
hyfryd hyn fod ar gael i'r cyhoedd
yn yr iaith Gymraeg. Felly y mae'r
recordiad yn un hanesyddol, ac

yn un sydd eisoes wedi derbyn
ymateb ffafriol iawn gan y
cyhoedd. Côr a ffurfiwyd ar gyfer
Eisteddfod Bro Madog yw
Cantorion Enddwyn. Buont yn
llwyddiannus mewn eisteddfodau
lleol a chawsant ganmoliaeth yn y
Genedlaethol. Yr arweinydd yw
Gwilym Jones. Clywir hefyd leisi-
au'r Tad Barnabas (Powys) a'r
Tad Deiniol (Blaenau Ffestiniog).
Y mae'r côr wedi llwyddo i gyfleu
naws ysbrydol arbennig cerddori-
aeth enwog yr Eglwys Uniongred
Rwsiaidd, a'r un pryd i gyflwyno
hyn yn effeithiol a naturiol yn
Gymraeg. Efallai y dechreuwn
glywed gosodiadau Mironositsci
o'r Gwynfyddau a Rimsci-
Corsacoff o Weddi'r Arglwydd, er
enghraifft yn cael eu canu yma a
thraw yng Nghymru unwaith y
bydd y cyhoedd cerddgar wedi
clywed y caset hwn. Y mae'r
gosodiadau ar gael gan y Tad
Deiniol, yr Eglwys Uniongred,
Blaenau Ffestiniog.

Bydd y caset ar gael mewn
siopau llyfrau a recordiau
Cymraeg mewn digon o bryd cyn
y Nadolig. Enw'r caset yw
'Offeren Ddwylol', Dyhoeddiadau
Uniongred y Manod, Blaenau
Ffestiniog, pris £5.50, rhif catalog
SSLC 801. Gellir hefyd archebu
gan y cyhoeddwyd yn 11 Heol
Manod, Blaenau Ffestiniog,
Gwynedd LL41 4DE. Dylid ych-
wanegu 75c am gludiant.



CYMDEITHAS ADDYSG AMGYLCHFYD GWYNEDD

Nos Fawrth, Tachwedd 7 am 7.00
o'r gloch, cynhelir cyfarfod ym
Mhlas Tanybwllch ar y testun -
"Y Dechnoleg Amgen -
Technoleg y Dyfodol?" Ar y
panel bydd cynrychiolwyr o'r
Ganolfan Dechnoleg Amgen,
Machynlleth.

Pris mynediad - £1 (ac am ddim i
aelodau'r Gymdeithas).

- Jig i Atgyweirio Cyrrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd
ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

Heddiw ar Radio Cymru

Erbyn hyn mae HEDDIW yn dechrau ennill ei le yn y bore ar Radio Cymru, a'r gwrandawyr yn dechrau cyfarwyddo â lleisiau Vaughan Hughes a Russell Isaac yn eu deffro yn y bore.

Un elfen bwysig iawn yn y rhaglen yw newyddion lleol ac un ffordd o sicrhau y caiff pob ardal gyfiawnder yw i chi gysylltu â ni. Os oes gennych chi unrhyw hanesyn difyr, neu os oes unrhyw beth diddorol yn digwydd yn eich ardal chi, cysylltwch â ni. Fydd dim rhaid i chi dalu am yr alwad hyd yn oed - deialwch 0800 269904 i sgwrsio â Heddiw ym Mangor neu 0800 272535 yng Ngherdydd. Cyfle i bawb fod yn rhan o'r rhaglen foreol.

DATHLU'R DEG 1979 - 1989

Yn ystod yr wythnos Tachwedd 12-19, mae Radio Cymru yn dathlu ei ddegfed pen-blwydd, gyda nifer o ddigwyddiadau trwy'r wlad.

Bydd Hywel Gwynfryn a Sulwyn Thomas ar y ffordd o ddydd Llun tan ddydd Iau, yn dechrau'r daith yn Llangernyw, Clwyd dydd Llun, ac yna dydd

Mawrth yn y Waunfawr. Llanfaircaereinion, Powys ydd Mercher a Brynman, Dyfed dydd Iau.

Ar CANIADAETH Y CYSEGR bydd cyfle i fwynhau Cymanfaeodd dathlu 40 mlynedd Caniadaeth - dydd Sul, Tachwedd 12 o'r Tabernacl Treforus, a Tachwedd 19 o Capel Tegid y Bala.

Yn ystod yr wythnos ar Radio Cymru fe ail-ddarlledir rhai o uchafbwyntiau'r gorffennol, yn rhaglenni cyfan a phytiau o raglenni.

Cynhelir dau gyngerdd dathlu hefyd, un yn Neuadd Pritchard-Jones, Bangor ar nos Wener, Tachwedd 10 gydag R Alun Evans yn cyflwyno Côr Meibion Unedig (Y Traeth, Penrhyn a Chaernarfon - y tri chôr a ddaeth yn gyntaf, ail a thrydydd yn Llanrwst eleni), Mary Lloyd Davies, Bryn Terfel, Elinor Bennet a Chôr Ysgol Dewi Sant, Wrecsam (arweinydd - Jean Stanley Jones); a'r llall yn Theatr Felin Fach.

Darlledir y ddau gyngerdd yn ystod yr wythnos dathlu ar Radio Cymru.

CASGLU £600 AT ACHOS DA



Eirir Wyn Owen, Agnes Spawton, Menna Wyn Jones a Mary Elliott, ar ran parti Lleisiau'r Gweunydd yn cyflwyno siec am £600 i gynrychiolydd Cronfa Fibrosis Cystaidd. Daeth yr arian o elw Cyngerdd a gynhaliwyd yn Neuadd Rhiwlas yn ddiweddar, ynghyd â Raffl Fawr y Côr. Mae'r aelodau'n dymuno diolch i drigolion bro'r Eco am eu cefnogaeth.

Nos Wener, Rhagfyr 1 CYNGERDD gyda

CÔR MEIBION Y TRAETH
yng Nhapel Coch, Llanberis
am 7.30 o'r gloch
Elw tuag at Gronfa Alan Pritchard, Nant Peris

ADNEWYDDU PARTI ERYRI - AM Y TRO!



Parti Eryri fel ag yr oeddynt blwyddyn neu ddwy yn ôl

Yn ystod y chwech a'r saithdegau un o bartïon Noson Lawen mwyaf poblogaidd Cymru oedd Parti Eryri - yr aelodau o'r gwahanol bentrefi o gylch Caernarfon. Arferai'r parti gynnal Nosweithiau Llawen yn gyson yng Ngogledd Cymru a mynnych iawn gwahoddwyd hwy i neuadau De Cymru a chymdeithasau Cymraeg yn Lloegr. Roeddynt yn gyson ar y teledu, yn rhaglenni poblogaidd fel 'Hob y Deri Dando' a 'Ysgubor Lawen', a chyhoeddwyd sawl record o'u heiddo. Arferai'r parti ymarfer yn festri Cacathro o dan arweiniad Ifor Hughes ac yn nhreigl y blynyddoedd y cyfeilyddion fu Richard Morris (Hogia'r Wyddfa wedi hynny) a Marcia Thomas. Roedd y parti yn dra phoblogaidd ar hyd a lled Cymru a siom fawr

i'w llu o edmygwyr oedd iddynt roi terfyn ar y diddanwch o ganu, sgetsus, adrodd ac yn y blaen, ym 1978.

Ond nos Wener, Tachwedd 24 eleni, yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug mae cyn-aelodau Parti Eryri wedi hel at ei gilydd - er fod amryw ohonynt wedi symud i fyw i Fôn, i Feirion ac i Glwyd, ac am roi noson o hwyl a chân unwaith eto - y tro hwn yng nghwmni Hogia'r Wyddfa (hwythau yn gyn-aelodau) a Rosalind a Myrddin.

Arweinyddion y Noson fydd Rol Williams, a fu'n cyflwyno eitemau'r Parti o wahanol lwyfannau am flynyddoedd, a Trefor Selway a'i dilynodd yn y gwaith.

Bydd elw'r noson at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (831043)

LLONGYFARCHIADAU i Nowi ac Alwena, Haydn House ar ddathlu eu Priodas Arian ym mis Medi.

Hefyd i Celia a Meirion Thomas, Lon Ty Du ar achlysur eu Priodas Arian ar Hydref 17.

DIOLCH: Dymuna Wendy Jones, 1 Stryd y Dwr ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Betty Hughes, Stryd yr Wyddfa ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, arhegion a gfwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl triniaeth yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fedi 28, dan arweiniad Mrs Hannah Jones a chroesawyd yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliu'r haf.

Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol. Safodd yr aelodau mewn distawrwydd i goffau y ddiweddar Mrs A B Jones, a oedd yn aelod ffyddlon ers blynyddoedd ac yn barod i helpu bob amser. Penodwyd Mrs Eluned Mai Jones a Mrs Katie Williams i roi'r dorch ar y Gofgolofn ar Sul y Cofio.

Ein gwr gwadd am y noson oedd Mr Norman Davies o Bontnewydd a siaradodd am Blant o dan Anfantais Anabledd a hefyd dangosodd fideo i ni.

Diolchwyd i Mr Davies ac i'r gwestwragedd, Mrs Dorothy Jones a Mrs Helen Morris, gan Mrs Eluned Mai Jones a Mrs Jan Davies. Enilwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

DYMUNIADAU GORAU i Mam a Dad, Iola a Ken Sellars, 13 Dôl Elidir, ar ddathlu eu Priodas Arian ar Hydref 17 oddi wrth Mel, Amanda, Jackie, Annette a'r teulu oll.

DYMUNA Clara Robert Anfield, 4 Coed y Ddol, ddiolch i'w theulu, perthnasau a ffrindiau am yr anrhegion, blodau a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed.

DYMUNA Staff y Clinic ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd ym mhob modd tuag at y Noson Goffi lwyddiannus a gynhaliwyd ar Hydref 6ed yn Ysgol Dolbadarn i

Gronfa Lowri Pritchard, Llanrug.

Bydd yr elw o £1000 yn mynd tuag at gost triniaeth Lowri yn Efrog Newydd. Unwaith eto diolch yn fawr iawn i bawb.

CYDYMDEIMLWN â Mr Francis Jones, Maes Padarn a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam a nain.

Hefyd â Mr Idwal Thomas a Marcia yn eu profedigaeth o golli priod a mam.

DIOLCH: Dymuna Rick, Val a Louise Bernard ddiolch i bobl y pentref am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Nia Thomas, Maes Padarn ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed, hefyd dymuna Nia a Jason ddiolch i bawb am y cardiau a gawsant ar achlysur eu dyweddïad.

DYWEDDÏO: Llongyfarchiadau i Jason Robert a Nia Thomas ar achlysur eu dyweddïad.

LLONGYFARCHIADAU i Wendy Jones, Stryd Siarlot ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Hefyd Aled ap Derryl, Siop Goed. Hefyd Jackie Sellars, 13 Dôl Elidir a fydd yn ddeunaw oed ar Dachwedd 5ed.

LLONGYFARCHIADAU i David a Diane Pitts, Manceinion ar enedi-gaeth eu merch fach gyntaf, Denise.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol:

Mr Gwynfryn Griffiths; Miss Wendy Jones, Stryd y Dwr; Mr Bob Lloyd, Dol Elidir; Mrs Dilys Phillips, Coed y Glyn; Mrs Jean Thomas, Stryd Newton;

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Clara Roberts ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed.

DIOLCH: Dymuna Iola a Ken Sellars ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Arian.

DIOLCH: Hoffai Derek a Delyth, Trigfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y Noson Goffi i Apêl Lowri

CATH YN YR OEDFA

"Ni chefais gath mewn oedfa 'rioed o'r blaen."
Medd ein pregethwr, "ond fe awn ymlaen."
Rhyw gath fach wen ac arni flewyn coch
Yn rhedeg mlaen ar oriel Capel Coch,
O'r ochr dde i'r ochr chwith yr aeth
A'r gynulleidfa'n synnu at ei chwaeth,
A heibio'r cloc yr aeth gan sylu'n syn
I lygaid Huw'r organydd erbyn hyn.

Beth oedd yn poeni'r creadur meddwch chi,
A'i IACHAWDWRIAETH oedd ei helfa hi?
Caed drws agored iddi fore braf
A chroeso fel dieithryn yn yr haf.
A'i IACHAWDWRIAETH oedd ym meddwl hon,
Neu chwilio roedd amheddwch dan ei bron?

Ond bore Llun draws ffordd y gwelwyd hi
Yn y feddygfa'n mewian mysg y llu,
Ni chym'rodd sylw fawr o'r meddyg-ddyn,
Ond canai grwndi fwyn ar ben ei hun.
A'i ceisio IECHYDWRIAETH ydoedd hon?
Oedd ganddi boen yn llechu dan ei bron?
Câdd sylw mawr, a chynnes law, a gwên
Câdd groeso gan y cleifion, pawn yn glên.

Nid chwilio am lygodyn fach oedd hon
Na rhedeg 'nôl a blaen gan chwarae'n llon,
Ond dod a gwers i bawb mewn carchar caeth
Fod IACHAWDWRIAETH ar bob llaw yn faeth,
Ac wele IECHYDWRIAETH iachus iawn
Ar gyfer dyn foreddydd a phrynhawn.

Dilys Baylis
Haf 1989

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

CRONFA ALAN PRITCHARD: Casglwyd £135.40 at Gronfa Alan Pritchard mewn noson o Bingo yn y Vaynol Arms. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn arian ac anrhegion at y noson ac hefyd am gefnogaeth pobl Llanberis.

CYFARCHION PEN-BLWYDD: Pen-blwydd hapus i Griffith Closs Williams ar gyrraedd ei 86 y mis diwethaf.

LLONGYFARCHIADAU i Sandra am fod yn llwyddiannus yn ei arholiad City & Guilds mewn Ceginio.

— i Dafydd a Heddwen ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

a gynhaliwyd yn Ysgol Dolbadarn. Diolch yn arbennig i'r rhai a oedd yn gyfrifol am drefnu y noson. Yr ydym yn hynod o ddiolchgar am yr holl garedigrwydd a'r haelioni sydd wedi ei ddangos tuag atom.

— i Iwan ac Einir ar eu priodas ar Sadwrn, Hydref 14ain.

a hefyd i Karen Ann Price, Y Llythyrdy ar basio arholiadau TGAU mewn Mathemateg a Chymraeg eleni.

DIOLCH: Dymuna Ann a Glyn, Y Llythyrdy ddiolch i'w ffrindiau am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

DISGRIFIAD DIDDOROL

"Near Llanberis

A little before sunset we came in sight of Llanberis Lake, Snowdon, and all the craggy hills and mountains surrounding it; the foreground a beautiful contrast to this grandeur and desolation — a green sloping hollow, furnishing a shelter for one of the most beautiful collections of lowly Welsh cottages, with thatched roofs, overgrown with plants, anywhere to be met with: the hamlet is called Cwm-y-Glo.

William Wordsworth (1770-1850) Letters"

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



I weled ein crôg fasgedi — a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu — a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

Agor Ffiniau'r Gorffennol YR HEN FFEFRYNNAU

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Allan o'r llyfr 'Cerddi Crwys', argraffwyd 1922.

Yr hen adroddiadau ddaw i'r bwrdd heddiw. Maent yn ddal i'n diddori a dyna'r rheswm fy mod yn eu rhoi ger eich bron. Crwys ydyw awdur pob un ohonynt. Y mae pob un yn hen ffefryn heb os ac yn dal yn boblogaidd.


Melin Trefin

Nid yw'r felin heno'n malu
Yn Nhrefin ym min y môr,
Trodd y merlyn olaf adre
Dan ei bwn o drothwy'r ddôr;
Ac mae'r rhod fu gynt yn rhygnu
Ac yn chwyrmu drwy y fro.
Er pan farw'r hen felinydd
Wedi rhoi ei holaf dro.

Rhed y ffrwd garedig eto
Gyda thalcen noeth y ty,
Ond ddaw neb i'r fâl a'i farlys,
A'r hen olwyn fawr ni thry;
Lle doi gwenith gwyn Llanrhian
Derfyn haf yn llwythi cras,
Ni cheir mwy ond trës o wmon
Gyda'g ambell frwynen lās.

Segur faen sy'n gwyllo'r fangre
Yn y curlaw mawr a'r gwynt,
Di-lythyren garreg goffa
O'r amseroedd difyr gynt:
Ond 'does yma neb yn malu
Namyn amser swrth a'r hin
Wrthi'n chwalu, ac yn malu,
Malu'r felin yn Nhrefin

Crwys, 1918



Cloch y Llan

Mae hi'n Sabath am unwaith eto, Sian,
A chanu mae Cloch y Llan,
A chystal cyfaddef - mae'n galed, Sian,
Heb allu mynd gam o'r fan;
Amser i'w gofio oedd hwnnw gynt
Pan aem i addoli 'nghyd,
Heb gyfri'r milltiroedd drwy law a
gwynt,
Na dim i gymylu'n byd.

Glyw' di hi'n canu? - yr un hen gloch
Ag a ganai'r bore gwyn
Pan ddoist i'm cyfarfod a gwrid ar dy
foch

I'r Eglwys yn ymyl y llyn;
'Roedd hi'n canu'n bereiddiach bryd
hynny, Sian,
Fel y cofi'n dda mi wn,
Ac 'roedd mwy o aur yn dy fodrwy,
Sian,
Nag sydd ynddi'r bore hwn.

Y dydd pan ddilynem ni elor Gwen
I'w bedd yn y fynwent lwyd,
Ti gofi'r offeiriad mewn llaeswisg wen
Yn ein cwrddyd yn ymyl y glwyd;
Oes, mae degugain mlynedd er hynny,
Sian,
A bu llawer tro ar fyd,
Ond bydd deigrin hiraethus yn gwlychu
'ngrudd
Pan y cano'r gloch o hyd.

Mae'n heinioes, anwylyd, yn dirwyn i
ben,

Ac awr y noswyllo'n neslau,
A'r gloch oedd yn canu ddydd angladd
Gwen

Fydd yn canu pan gleddir ni'n dau.
A phwy fydd ei hunan yn ymyl y tân
Yn dlawd a digysur ei fyd,
Fe fyddai'n drugaredd - oni fyddai,
Sian,
Pe galwai'r hen gloch ni'r un pryd.

Fy Olwen I

Rwy'n fodlon cydnabod fod Olwen
Yr eneth brydferthaf ond un,
Ni synnaf un mymryn fod beirdd pob
oes

Yn hanner addoli ei llun;
Ond rhaid imi addef er hynny
Fod un sy'n anwylach i mi:
Mae'n canu ar aelwyd y gegin yn awr
Hon yw fy Olwen i.

Mi wn nad oes fflamgoch sidanau
Am wregys f'anwylwyd wen,
Na chadwyn o berlau llaes am ei gwddf
Na choron o aur ar ei phen,
Ond waeth gen i ddim am hynny,
Y sioncaf o bawb ydyw hi,
Heb ffyrlling o ddyled i neb drwy'r byd
Hon yw fy Olwen i.

Fe all fod rhai gwynnach eu dwylo,
Fe all fod rhai 'sgawnach eu troed,
Ond beth tase dwylo fy nghariad mor
wyn

Ag anemoni ffynnon y coed -
Beth ddeuai o'r tyddyn a'r aelwyd,
A'm plant sy' cyn amled eu rhi?
Un dyner ei chalon a chaled ei llaw -
Hon yw fy Olwen i.

Pan glywais fod meillion yn tyfu
Lle bynnag'r âi Olwen y bardd,
Mi gerddais o amgylch fy nhyddyn glas
A dychwelais i rodio 'ngardd:
Does undyn all gyfrif y meillion
A'r blodau sy'n chwerthin mor ffri
Lle cerddodd un arall sy'n ddigon di-
sôn,
Hon yw fy Olwen i.

Pan edy fy mhlant yr hen aelwyd
A minnau yn llesg ac yn hen,
Ofer fydd disgwyl i Olwen y beirdd
Ddod yno a chusan a gwên:
Ond mi wn am un fydd yn glynu,
Yn glynu tra croesaf y lli,
Hi fydd yr olaf i droi ei chefn
Hon yw fy Olwen i.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**

RADIO WALES angen Straeon a Lleisiau Cymreig

Y mae 'Radio Wales' yn chwilio am bobl a syniadau yng Ngogledd Cymru, ac i'r perwyl hwn y mae Angie Roberts wedi ei phenodi yn gynhyrchydd cyntaf y gwasanaeth wedi ei lleoli ym Mangor.

Meddai Megan Stuart, Golygydd Radio Wales:

"Yr ydym yn chwilio am gyflwynwyr newydd ac am syniadau ar gyfer rhaglenni fel bod bywyd gogledd Cymru yn cael ei bortreadu ar 'Radio Wales' i'r un graddau a rhannau eraill o Gymru lle mae gennym gynhyrchwyr."

Dywedodd Angie Roberts, sy'n dod o Fwlchgwyn ger Wrecsam yn wreiddiol ac sy'n briod â'r actor Dyfan Roberts ac yn byw yng Nghrawiau ger Llanrug, y byddai'n ddiolchgar pe byddai unrhyw un gydag awgrymiadau am gyflwynwyr a syniadau am straeon o ogledd Cymru - ac yn enwedig o Wynedd - yn sgwennu ati hi ym Mryn Meirion, Bangor. "Yr hyn yr ydw i'n chwilio amdano yw straeon Cymreig a lleisiau Cymreig," meddai.

YR ENGLYN RHIFNODAU

Y mis dwythfa cyhoeddwyd englyn o rifau i chi'r darllenwyr geisio'i ddehongli. Yr ymgais gyntaf a dderbyniwyd oedd un Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen, Llanrug, ond yn anffodus nid oedd ei dehongliad yn gywir. Roedd dehongliad Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug yn bur agos at fod yn gywir ond yr ymgais gywir gyntaf i ni ei derbyn oedd ymgais Mrs Mary Grace Williams, Bethel. Dyma sut y dadansoddodd hi'r rhifau:

Tri un, dau, tri naw, deg, - tri phedwar,
Tri phump, tri phymtheg,
Tri wyth ddwywaith, tri deuddeg,
Tri dau, naw, tri deunaw, deg.

Diolchwn i'r cyfaill a osodd y dasg ac am ei rodd o £5 yn wobwr i'r enillydd. Llongyfarchiadau i chi, Mrs Williams ar ennill y gystadleuaeth a phob dymuniad da am adferiad icchyd buan, deallwn eich bod wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. (Gol.)

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa
wythnosol. Dewch i weld ein
amrywiaeth eang o fwydydd
**Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.**

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL
EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

MERCHED Y WAWR: Y gwr gwadd y mis hwn oedd Mr John Emyr. Cawsom noson ddiddorol yn ei gwmni yn sôn am fywyd a gwaith Kate Roberts. Diolchwyd iddo gan Miss Phyllis Ellis. Enillydd y raffl oedd Mrs Beryl Thomas. Paratowyd y baned gan Margaret Parry, Mary Roberts a Mair Huws. Diolchodd Jean Roberts iddynt.

Daeth cais gan y llywydd Ann Evans am i Lyfr Lloffion y gangen fod yn barod erbyn 31 Hydref. Dewiswyd Ann Lloyd Griffith ac Olwen Huws i gynrychioli'r gengen ar bwyllgor Celf a Chrefft Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Mae croeso i unrhyw aelod fynd i lawr i Aberystwyth ar 4 Tachwedd i Bwyllgor Cenedlaethol y mudiad.

Bydd Merched y Wawr Rhanbarth Môn yn cyflwyno tair drama fer yn Theatr Seilo am 7.30 ar 10 Tachwedd. Mae hefyd ychydig o docynnau ar ôl ar gyfer y perfformiad o Enoc Huws yn Theatr Gwynedd ar Dachwedd 21ain. I archebu tocyn neu i drefnu sedd ar fws ar gyfer unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, cysylltwch â Nan Humphreys, Pant Bryngwyn (Ffôn: 5668).

MERCHED Y WAWR

Ymweliad â Theatr Gwynedd i weld Enoc Huws, nos Fawrth, Tachwedd 21.

Tocynnau £4.30

— mae ychydig ar ôl.

Arian i lawr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd cyn Tachwedd 4ydd os gwelwch yn dda.

Bws yn cychwyn o'r Sgwâr, Llanrug am 6.45 yna i lawr Ffordd yr Orsaf ac i Benisarwaun (Ffoniwch Caernarfon 5668 am fwy o fanylion).

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Owen Humphreys, 16 Bro Rhyddallt ar ddatlu eu Priodas Euraid ar y 14eg o'r mis. Mae Mrs Humphreys ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, dymunir adferiad iechyd buan iddi.

GWAELEDD: Mae Mr Donald Roberts, 23 Bro Rhyddallt, mewn ysbyty yn Lerpwl wedi derbyn triniaeth law-feddygol.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd cyfarfodydd Diolchgarwch yng nghapel Pontrhythallt ddydd Sul. Plant yr Ysgol Sul a'r Ieuencid a

gymerodd ran yng ngwasanaeth y bore, a chafwyd anerchiad gan y gweinidog, y Parch John Morris.

Cynhaliwyd cyfarfod gweddi yn yr hwyr.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol nos Fawrth y 17eg, gyda Mr Emyr Jones, Caernarfon yn rhoi sgwrs ddiddorol ar "Feirdd a Chantorion y Chwarel". Llywydd y noson oedd Mr Emrys Owen, Hafan Elan a thalwyd diolch i Mr Jones gan y Parch John Morris.

DYMUNIADAU GORAU i Gwilym Jones, Gwelaion, Crawia sydd wedi dechrau ar ei yrfa ym Mhrifysgol Bangor.

DIOLCHIADAU: Dymuna Miss Dilys Jenkins ddiolch i'w ffrindiau a staff Tyddyn Elan am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar Hydref 11, hefyd am y blodau, maent yn hardd iawn.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Dilys Jenkins, 1 Penrallt gynt, yn awr yn Tyddyn Elan ar ddatlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

PWYLLGOR APÊL YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd, Twrog Jones, i'r rhai a fu'n helpu a chyfrannu at weithgareddau diwedd yr haf i godi arian at y gronfa leol. Mae'n dyled yn fawr i bawb. Ymfalchiwn mai £620 sydd angen eto yn ardaloedd Llanrug, Tanycoed a Cheunant nes cyrraedd y nod o £4,000. Er mwyn helpu i gyrraedd hyn penderfynwyd gwneud casgliad o dy i dy. Daw'r casglyddion o amgylch ar ddechrau mis Tachwedd a theimla'r pwyllgor yn hyderus y cawn groeso ganddoch chi'r ardalwyr, fel bob amser.

PLAID CYMRU: Daeth Duncan Brown, Waunfawr, i gyfarfod diwethaf y gangen a chawsom anerchiad arbennig o ddiddorol ac addysgiadol ganddo. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd Phyllis Ellis. Paratowyd y te gan Vera Williams a Helen Parry ac enillwyd y Raffl gan Phyllis Ellis. Bydd cinio Nadolig i'r aelodau a'u cyfeillion nos Sadwrn, Rhagfyr 2 yng Ngwesty Gwynedd Llanberis a derbynnir eich enwau a'ch arian gan Olwen Llywelyn neu Nan Humphreys erbyn dydd Mawrth,

Tachwedd 14 os gwelwch yn dda. Rydym yn falch o groesawu nifer o aelodau newydd i'r gangen eleni a gobeithiwn eu gweld yn y cinio Nadolig.

Fe dalodd y Cadeirydd deyrnged gynnes iawn i'r diweddar Meirion Parry, Tir Na Nog, a fu yn aelod o'r gangen ac ar un tro yn Drysorydd i bwyllgor Rhanbarth Arfon o Blaid Cymru. Anfonwyd ein cydymdeimlad diffuant iawn at ei weddw, Mrs Mair Parry, yn ei phrofedigaeth.

Enillwyd diweddaraf y Clwb Cant oedd:

Awst: Betty Williams, Curry's; Jean Walsh, Llanrug. **Medi:** John Arwyn, Penisarwaun; Berwyn P Jones, 59 Glanffynnon. **Hydref:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon; Goronwy Morris, Cefn Rhythallt.

NOSON TÂN GWYLLT: Trefnir coelcerth a than gwyllt ar gae chwarae y pentref nos Sadwrn, Tachwedd 4 am 6.0 o'r gloch a gwahoddir chi i ddod a'ch tân gwyllt yno i gael eu tanio yn ddiogel. Gobeithir gweld plant dan 12 oed yng ngofal oedolion.

Fe baratoir lluniaeth ysgafn eto eleni am brisiau rhesymol. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH: Hoffai Derek a Delyth, Trigfa, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at Apêl Lowri yn ystod y misoedd diwethaf. Yn arbennig, i'r rhai hynny a oedd yn gyfrifol am drefnu yr Wyl Haf yn Ysgol Gynradd Llanrug, ac i bawb arall a gymerodd ran i wneud y diwrnod yn un mor llwyddiannus. Diolch i bawb sydd wedi cymeryd rhan yn y gwahanol weithgareddau noddedig yn ddiweddar ac i'r holl noddwyr. Ni allem ddechrau enwi unigolion oherwydd buasai y rhestr yn un niferus, ond hofem i chwi wybod ein bod fel teulu yn hynod o ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at yr Apêl mewn unrhyw fodd, ac am yr holl garedigrwydd sydd wedi ei ddangos tuag atom.

— Dymuna Elizabeth Wyn Jones, Cenlys, Rhythallt Terrace, Llanrug, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am yr anrhegion, y cardiau niferus, galwadau ffôn, yr ymweliadau yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref. Diolch i'r meddyg teulu, Waunfawr, i'r meddygon a'r staff ar wardiau Glyder a Dulas am eu gofal caredig a diflino. Diolch arbennig i Buddug Hughes am ei charedigrwydd.

— Hoffai Maldwyn a Gwen, Minffordd, Llanrug, ddiolch i bawb am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch Gwenllian.

CHWIORYDD PONTRHYTHALLT. Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd pnawn lau 19 Hydref. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs E. W. Thomas, Dolwar. Testun y prynhawn oedd 'Y Pren Planedig', sef hanes Ann Griffiths, yr emyneddes o Ddolwar Fach. Cafwyd deialog o'i hanes gan Mrs W. A. Jones a Mrs I. L. Williams, gyda Mrs M. L. Williams yn cynorthwyo.

Canwyd yr emyn 'Y Pren Planedig' gan Mrs Williams, Bod Fair, a diweddw y cyfarfod trwy gyd-ganu yr emyn.

Rhoddyd y te gan Mrs C. Owen, Hafan Elan, a Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd.

Nos Lun, Tachwedd 20, 1989, bydd Mr DYFAN ROBERTS yn cynnal noson yn Festri Pontrhythallt am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Tâl mynediad 50c

Y GYMDEITHAS LENYDDOL:

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o Gymdeithas Lenyddol y Capel Mawr, nos Fercher 18 Hydref, gyda noson o adloniant gan Barti Wygyr o Gemaes. Llywydd y noson oedd Mr John W. Owen, a diolchwyd i'r parti gan Mrs N. Lovatt, a diolchwyd i'r merched am y lluniaeth ar ran y parti gan Mr Dafydd Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 1 Tachwedd am 7 o'r gloch, pryd y ceir sgwrs gan y Rhingyll Williams o Bencadlys yr Heddlu, Maesincla.

APÊL I MANON

Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Tachwedd 16ed.

Arweinydd: Dei Tomos Llywydd:

Mr Iolo Huws-Roberts
Artistiaid: Dafydd Iwan,
Dylan Parry (Traed Wadin),
Band Ieuencid Llanrug,
Clychau'r Grug,
Teulu Ty'r Ysgol,
Grwp Bron â Methu
a Dyfan Roberts.

Drysau yn agor am 6.30. I ddechrau am 7.0 pm.

Pris Tocyn £1.50; Pensiynwyr £1 Plant 50c.

YSTORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn:

Caernarfon 2790

Ar agor:

Llun - Gwener: 7.30 - 6

Sadwrn: 8 - 5

Sul: 9 - 12

Eich siop leol hefo'r oriau hwylus

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

YSGOL GYNRADD: Dymuniadau gorau pob un ohonom i Miss Ann Humphreys a Mr Dafydd Roberts, Llithfaen ar achlysur eu priodas ar 21 Hydref. Pob hapusrwydd i'r dyfodol.

Ddechrau'r mis, treuliodd plant Safon 1 fore difyr iawn yng Nghaernarfon yn ymweld â'r Archifdy a'r Amgueddfa Forwrol a Seiont II.

Ar y 10 Hydref cafodd Safon 4 y fraint o gael croesawu yr awdures Irma Chilton i'w plith. Bu enillydd y Fedal Ryddiaith yn Llanrwst eleni yn trin a thrafod llyfrau Cymraeg yn gyffredinol a bu'n rhannu cyfrinachau am gefndir rhai o'i nofelau ei hun i blant.

YR URDD: Yn y cyfarfod cyntaf eleni cawsom noson hwyliog iawn yng nghwmni Mr Dafydd Arfon Jones, Minffordd. Roedd wedi trefnu nifer o chwaraeon i ni. Diolch o galon iddo am ddod atom.

Yr wythnos diwethaf roedd sôn bod ambell un yn y pentref yn poeni braidd pan welsant y Frigâd Dân ar fuarth yr ysgol. Ond roedd popeth yn iawn! Swyddogion o'r Gwasanaeth Tân yng Nghaernarfon ddaeth at aelodau'r Urdd i sgwrsio am eu gwaith.

Aeth y tîm pêl-droed a'r tîm pêl-rwyd i Ysgol yr Hendre Caernarfon am eu gêm gyntaf eleni. Dechreuwyd y tymor yn gampus gyda buddugoliaeth i'r ddau dîm. 6-3 oedd sgôr y pêl-droed ac 8-0 oedd y pêl-rwyd. Nos Fawrth, 14 Tachwedd, bydd John Meirion a Ceinwen Davies o Siop Awen Menai yn yr ysgol, rhwng 5 ac 8 o'r gloch, yn cynnal Ffair Lyfrau. Bydd llyfrau plant, oedolion, casetau ag anrhegion Nadolig ar werth. Croeso cynnes i bawb.

SIOP TRIN GWALLT ELAINE

Dalier Sylw:

Mae noson trin gwallt DYNION wedi newid o nos Fercher i nos Fawrth. Ffôn: Caernarfon 2023

DRAENOG

'Ma rhywbeth bach yn poeni pawb', medda'r geiria yn yr hen gân 'na am ddefaid. Ma gin i ofn na fel arall y bydd hi y gaea ma yn Nant Peris - y defaid fydd yn poeni. Trwy ofer esgeulustod un ffarmwr yn y Nant ni fydd yr un ddafad yno yn cael ei phleserau arferol. Mi fydd yr hen lethrau 'na

O GYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cyfarfu'r Cyngor Cymdeithas yn Angorfa gyda'r Parch Gwynfor Williams yn llywyddu.

Cyhoeddwyd fod Cyngor Arfon ar gais y cyngor cymdeithas, wedi clirio'r baw oedd yn y cae chwarae ger yr hen waith nwy, ond roedd cryn bryder am fod llawer o faw cwn yno o hyd. Mae'r cyngor yn awr yn ystyried gofyn i Gyngor Arfon roi rhybudd yno yn gwa-hardd pobl i fynd â'u cwn yno.

Anfonwyd gwahoddiad i swyddogion y Cyngor Sir gyfarfod y cyngor i drafod problem parcio Maes Padarn.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Brif Swyddog Cynllunio Arfon yn hysbysu'r cyngor fod y Swyddfa Gymreig wedi gorchymyn i'r Cyngor beidio â bwrw ymlaen gyda chynllun Glyn Rhonwy er

mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu os dylai'r cyngor wneud cais iddo ef am ganiatâd cynllunio, a bod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi penderfynu gohirio trafod y cais i ddisgwyl ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol.

Derbyniwyd llythyr yn hysbysu'r cyngor fod eu swyddogaeth fel ymddiriedolwyr ar y Ganolfan Gymdeithasol wedi ei diddymu ac mai Cyngor Arfon sydd bellach gyda'r cyfrifoldeb.

Nid oedd gan y cyngor wrthwynebiad i geisiadau i osod ffenestri a drysau newydd yn y Llythyrdy a Glyn Padarn, nac ychwaith i'r cais am atgyweirio Pen Ceunant, ond yr oedd pryder fod gormod o ffenestri plastig yn cael eu gosod yn yr ardal ac nad oeddynt yn gweddu i gymeriad y pentref. Penderfynwyd cael barn Cyngor Arfon ar y peth.

Rhoddwyd gwahoddiad i Mr Dafydd Wigley, A.S., a chynrychi-

olwyr o'r heddlu ddod i drafod amrywiol broblemau'r ardal. Bydd yr heddlu yng nghyfarfod 16 Tachwedd, ond ni chafwyd dyddiad pendant gan Mr Wigley.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngor Eglwysig yn cwyno am gyflwr y goeden ywen ger yr Eglwys yn Nant Peris, a phenderfynwyd cymryd camre ar fyrder. Derbyniwyd hefyd gopi o'r llythyr a anfonwyd gan y Cyngor Eglwysig i Gyngor Arfon, yn cwyno'n fwyaf arbennig nad oes fawr o le yn y fynwent newydd ac yn pwysleisio fod y broblem yma wedi ei chodi mor bell yn ôl a 1977.

Penderfynwyd torri'r llwyni a'r coed o gwmpas y groesfan o'r Lanfa i'r pentref.

Gofynnir i Gyngor Arfon glirio'r baw a adawyd yn Stryd yr Wyddfa wedi i'r sgip gymunedol fod yno.

Yn dilyn y ddamwain gyda'r bws ysgol penderfynwyd gofyn i'r cyngor sir wneud arolwg o'r rhan yma o'r ffordd rhwng Llanberis a Nant Peris.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321).

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch yng Nghapel Ceunant, brynhawn Sul, 1 Hydref, dan ofal y gweinidog y Parchg John Morris. Cymerwyd rhan gan Karen Jones, Ffion Williams, Nichola Jones, David Jones, Dylan Parry a Gwenno Parri. Hyfforddwyd y plant gan Miss Eirlys Jones, Y Garth.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlwn â Mrs L. Jones, Gareth, Edwina a Dylan, Ty Capel, yn eu profedigaeth o golli gwr, tad a thaid annwyl, sef Mr Caradoc Jones. Bu farw Mr Jones yn 65 mlwydd oed ar 23 Medi yn Ysbyty Gwynedd. Bu'r angladd ddydd Mercher, 27 Medi, gyda gwasanaeth yng Nghapel Ceunant ac yna Amlogsgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Morris ac Emrys W. Thomas.

yn brin o feheryn!

Aeth y ffarmwr i lawr mor bell a De Cymru i chwilio am feheryn iddyn nhw - chwarae teg iddo fo. Ond ar ôl cyrraedd sêl Penderyn - darganfu mai hen feheryn oedd yn cael eu gwerthu yno! Ma defaid Nant yn haeddu gwell! Ma sôn fod un neu ddwy wedi crwydro dros y Garn i gyfeiriad Besda yn barod i chwilio am waed ifanc. Cross Briding eto!

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

CYFARFOD MIS HYDREF

Cafwyd cyfarfod agoriadol diddorol iawn yn Nhy'n Llan, Nant Peris, yng nghwmni Emyr Jones, Caernarfon. Roedd yn sgwrsio am gymeriadau'r chwarel yn ystod dauddegau a thridegau'r ganrif, ac yn addas iawn cynhaliwyd y cyfarfod yn 'Y Caban' - ystafell foethus wedi ei chynllunio ar ddull yr hen gaban chwarel. Er hynny, siomedig iawn oedd nifer y rhai a gefnogodd y noson.

CYFARFOD MIS TACHWEDD

Sgwrs gan Rhodri Prys Jones ar

YR HEN WAUN

i'w chynnal yng Nghanolfan y Waunfawr am 7.30, nos Fercher, Tachwedd 15
Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

LLYFR HEN LUNIAU

Mae'r llyfr o hen luniau bro 'Eco'r Wyddfa' ar fin mynd i'r Wasg. Disgwylir y bydd galw mawr am y llyfr o gofio'r nifer a ymwelodd â'r arddangosfa yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis. Os am wneud yn sicr o'ch copi, cysylltwch ar fyrder ag unrhyw un o swyddogion y Gymdeithas. (Gallwch wneud hyn yng nghyfarfod mis Tachwedd yn y Waunfawr.)

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394



CARTREF YR HENOED

CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

APÊL EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Nos Sul, Medi 24 cafwyd Cyfarfod Canu Cynulleidfaol yng Nghapel Bethel. Trefnwyd y cyfarfod gan Miss Eirlys Jones, Maelor. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddi ac i blant y pentref a gymerodd ran, i Osian a Meilir Gwynedd am gyfeilio, ac i'r gynulleidfa am ddod i gefnogi. Y gweithgaredd nesaf sydd wedi ei drefnu yw Gyrfa Chwist, i'w chynnal yn y Ganolfan nos Wener, Rhagfyr 8. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco. Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu diolch i Sefydliad y Merched ac i'r Clwb Bowlio am eu rhoddion i'r gronfa apêl.

LLONGYFARCHIADAU i Robin a Carol Williams, Angorfa ar enedigaeith merch fach, Julie, chwaer fach i Christine a Joanna.

DIOLCH: Dymuna Geraint a Veronica, Cil-y-Mynydd, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab, Marc Richard. Diolch i'r meddygon a staff Surgery Waunfawr.

YR URDD: Ar nos Fercher, Hydref 4ydd aeth aelodau'r Urdd i'r Ganolfan Hamdden i nofio yng nghwmni Pat Parry a Joy Glyn; ac ar Hydref 19 cafwyd Rownderi gyda Carys Jones ac Olwen Williams. Diolch yn fawr iawn i'r nifer dda iawn o rieni a ddaeth ynghyd i gludo'r plant i Gaernarfon.

Cafwyd raffl, rhoddedig gan aelodau Pwyllgor yr Urdd, yn ystod Ras yr Antur a'r enillydd oedd Mrs Mary Jones, Llwyn Afon.

Ar Dachwedd 1af cofiwch ddod i baratoi ar gyfer Noson Guto Ffowc yng nghwmni Sioned Glyn a Heulwen Jones, ac ar nos Sadwrn y 4ydd bydd y Goelcerth yn cael ei thanio am 6 o'r gloch. Noson i'r teulu fydd hon a bydd cawl a chwn poeth ar gael am bris rhesymol. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad yn ystod y noson tuag at gostau'r tân gwyllt.

NOSON GUTO FFOWC

dan ofal yr Urdd yn y Ganolfan nos Sadwrn, Tachwedd 4ydd Noson o Goelcerth a Thân Gwyllt i'r teulu, ynghyd â chawl a chwn poeth blasus i ddilyn

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Medi 28 agorwyd tymor newydd dan lywyddiaeth Irene Roberts. Croesawodd Mrs Marged Pritchard, Penrhyndeudraeth i roi darlith ar Kate Roberts ac roedd yn ddifyr iawn. Diolchwyd iddi gan Mary V Jones.

Gwesteion y te oedd Glenys Williams, A C Griffith a Nelly Williams, yr oll o Betws Garmon. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Glenys Williams, oedd Iona Williams. Braf oedd gweld aelodau newydd ac mae croeso i lawer mwy. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 19 gyda Jill Brown.

ADREF O'R YSBYTY: Mae'n dda deall for Dr Miles, Trefeddyg a Neville Owen, Bryn Gwylan, wedi dod adref o'r ysbty. Gobeithio eu bod yn dal i wella.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion; Mrs Emsul Jones, Bro Waun; Mrs G Roberts, 13 Bryn Golau a Mrs M H Thomas, Tan y Foel, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbty. Dymunwn wellhad buan ichi i gyd.

Hefyd mae Dylan Jones, Eryri Wen yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbty.

DAMWAIN: Anfonwn ein cofion at Marcus Hughes a arferai tyw yn Gwyndy (Siop Chips) a anafwyd mewn damwain ar y maes yng Nghaernarfon pan oedd yn aros am y bws i ddod ag ef i fyny i'r Waun. Mae Marcus yn dal i fynychu ysgol y Waun.

— at Yvonne a Martin Beech, Rose Mount a fu mewn damwain car ger y Post. Mr Tim Rice, Ty'n Cae Newydd oedd yn gyrru'r car arall yn y ddamwain.

— at Sharon Owen, Yr Efail, a dorodd asgwrn ei braich pan ddisgynnodd o ben wal.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Dafydd Thomas, Treforfan ar ei ddywedd i Wendy Jones, o Bontnewydd;

— i Sandra Roscoe, Ty Ni ar ei phriodas â Nigel Griffith o Lanrug;

— i Ann Llywelyn Griffith, Eirianallt ar ei phriodas â Brian Williams o Gaernarfon;

— i Peter Roscoe, Ty Ni; David Lewis, Bryn Golau a Helen Clough, Ynysoedd ar gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.,

Mae amryw o bobl ifanc y pentref wedi pasio prawf gyrru yn ddiweddar, llongyfarchiadau iddynt i gyd. DYMUNIADU GORAU i Mr Stanley Williams, Cefn Coed ar ei ymddeoliad o'i swydd gyda Chyngor Arfon. Bu Mr Williams yn gweithio i'r Cyngor am ddeugain mlynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Sioned Eleri Jones, Haufryn, am ennill cystadleuaeth a drefnwyd gan Eglwys Sant Bodfan, Llanfairfechan, i Ysgolion Sul Gwynedd. Daeth yn gyntaf o dros 400 o gystadleuwyr ac fe gafodd docyn llyfr a nwyddau darlunio am ei hymdrech.



MERCHED Y WAWR: Bydd swper Merched y Wawr eleni yn y Split Willows, Llanfairfechan, nos Iau, 23 Tachwedd. Bydd y bws yn cychwyn o'r Post am chwarter i saith. Y pris fydd £8.25 yn cynnwys y bws. Enwau ac arian cyn gynted ag sydd modd i Nan Huws Roberts neu Llinos Cadwaladr.

Fferm Bodhyfryd
Waunfawr

Annwyl Ardalwyr,

Carwn ddiolch i ardalwyr Waunfawr a'r cylch am y croeso a dderbynias i a'r teulu yn ystod fy ugain mlynedd fel Nyrs Ardal.

Diolch i bawb a gymerodd ran gyda'r casglu ac hefyd ar noson cyflwyno y siec. Diolch am y deyrnged garedig, yr holl gardiau, blodau a'r anrhegion.

Diolch hefyd am yr ymateb hapus a chyfeillgar gan y Doctoriaid, Staff a phawb yn y cylch dros y blynyddoedd.

Diolch o galon

M W Williams
SRN, SCM, QIDNS

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Medi: £40: Gwilym Hughes, 16 Tref Eilian; £25: S Wroe, Bryn Siriol; £10: Meirion Jones, Cryd yr Awel.

EISTEDDFOD WAUNFAWR: Cynhaliwyd Eisteddfod Ardal Waunfawr dydd Sadwrn, Hydref 14eg yn y Ganolfan. Mrs Glenys Griffith, Bethel oedd y beirniad Canu; Mr H G Roberts, Cricieth y beirniad Adrodd; y beirniad Llên a Llinell Goll oedd Mr Iolo Huws Roberts, Waunfawr; Mrs R A Hughes, Waunfawr oedd y beirniad Ceginio a'r Gwaith Llaw; Mr Islwyn Jones, Llanrug oedd yn beirniadu yr Arlunio a Ffotograffiaeth a Mr T A Thomas, Waunfawr oedd yr arbenigwr Gwaith Coed.

Y cyfeilyddion oedd Mrs Ann Marston, Waunfawr a Mr Brian Williams, Pontllyfni.

Arweiniwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs Irene Roberts a Mrs Nan Roberts gyda Mr Robert Williams a Mr Norman Williams yng nghyfarfod yr hwyr. Cynorthwywyd gyda'r plant lleiaf gan Mrs Joy Glyn a Mrs Bethan Williams.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant yr Eisteddfod.

Dyma'r canlyniadau:

CYFARFFOD Y PRYNHAWN CERDD

Dan 4 oed: 1. Anna a Ieuan; 2. Rhion, Iwan, Elgan a Iwan; 3. Sara, Elin a Tim. 4-6: 1. Ifan Glyn; 2. Ifan Morgan; 3. Sion Rhys. 6-8: 1. Sioned; 2. Iolo; 3. Aled, Osian a Lowri. 8-10: 1. Heledd; 2. Edryd. 10-12: 1. Bethan.

Parti Unsain dan 12: 1. Parti Lowri; 2. Parti Dewi; 3. Parti Mawr a Parti Bach. Deuawd dan 12: 1. Osian a Heledd; 2. Ceryl a Heddus. Cân Actol dan 8: 1. Tegannau; 2. Y Tywydd; 3. Yr Ysgol Feithrin. Unawd Piano dan 10: 1. Manon; 2. Derfel a Gareth; 3. Heledd. Unawd Piano 10-12: 1. Bethan; 2. Ffion a Huw; 3. Kristy, Llio a Heddus. Unawd Recordydd dan 10: 1. Manon. Unawd Offeryn Chwyth dan 12: 1. Heddus; 2. Kristy; 3. Huw.

ADRODD

Dan 4: 1. Anna Glyn; 2. Rheon, Elgan ac Iwan. 4-6: 1. Ifan Glyn; 2. Ifan Morgan a Sion. 6-8: 1. Sioned; 2. Lowri ac Aled; 3. Iolo. 8-10: 1. Manon; 2. Gareth. 10-12: 1. Huw; 2. Bethan; 3. Llio a Gwenno. Parti Adrodd dan 12: 1. Parti Llio; 2. Parti Huw.

GWASANAETH FIDEO PROFFESIYNOL AR GYFER UNRHYW ACHLYSUR

- * Dyweddïad
- * Priodas
- * Pen-blwydd
- * Bedydd
- * Drama
- * Carnifal

Am fwy o fanylion cysylltwch â
John Blight
LLANBERIS
872 209

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

LLÊN

Safon 1: 1. Lowri; 2. Osian; 3. Eleri. Safon 2: 1. Gareth; 2. Heledd; 3. Derfel; 4. Sian. Safon 3: 1. Valerie ac Iwan; 2. Kevin; 3. Amber. Safon 4: 1. Bethan; 2. Llio; 3. Arwel; 4. Llyr.

ARLUNIO

Ysgol Feithrin: 1. Ceirion; 2. Iwan; 3. Iwan a Sara. Babanod 1: 1. Emma; 2. Amy; 3. Janette ac Ifan Glyn. Babanod 2: 1. Tony; 2. Ffion a Maria; 3. Steven. Safon 1: 1. Arran; 2. Eleri; 3. Karen a Lowri. Safon 2: 1. Rhian; 2. Emma; 3. Ian a Richard. Safon 3: 1. Kevin; 2. Guy a Mathew; 3. Iwan. Safon 4: 1. Llinos; 2. Gwyn a Tracey; 3. Ffion.

GWAITH LLAW

Babanod 1: 1. Janette; 2. Ifan Morgan a Kim; 3. Ifan Glyn a Simon. Babanod 2: 1. Lisa; 2. Carol; 3. Maria. Safon 1: 1. Iolo; 2. Lowri; 3. Arran. Safon 2: 1. Sian; 2. Carl; 3. Emma. Safon 3: 1. Simon; 2. Alison a Valerie; 3. Lowri. Safon 4: 1. Ffion; 2. Gwyn; 3. Arwel.

CYFARFOD YR HWYR ADRODD

12-15: 1. Elin; 2. Hefina. Darllen darn ar y pryd 11-18: 1. Rhys; 2. Meilir; 3. Rhodri. Darllen darn heb el atalnodi dros 18: 1. Irene; 2. Bethan a Llinos; 3. Carys. Parti Adrodd dros 18: 1. Genod Ni.

CERDD

Unawd Offeryn Chwyth 12-15: 1. Kailey; 2. Delyth a Meilir; 3. Elin. Unawd Offeryn Chwyth 15-18: 1. Osian. Gwobr Mr Leslie Jones am yr offerynwr mwyaf addawol dan 18 oed: Osian Gwynedd. Unawd Piano 12-15: 1. Meilir; 2. Elin; 3. Hefina ac Anwen. Unawd Piano 15-18 a chwpan Mr H O Jones: 1. Osian. Unawd 12-15: 1. Hefina. Unawd Cân Werin 12-18 a chwpan Mr Alun Williams: 1. Hefina; 2. Manon. Unawd Cerdd Dant dan 18: 1. Hefina. Deuawd 12-18: 1. Anwen a

Delyth; 2. Alaw a Bethan. Parti Canu dan 18: 1. Parti Anti Rhian. Sgets neu Gân Actol dan 18: 1. Hanner Dwsin; 2. Parti P.P. Grwp Pop dan 18: 1. Begonîs. Cân Actol dros 18: 1. H2O a Tim Criced. Emyn dros 40 oed: 1. Wmffra; 2. Alun; 3. John. Unawd Cân Werin dros 18: 1. Alun ac Wmffra. Unawd Gymraeg dros 18: 1. Alun; 2. Wmffra. Deuawd dros 18: 1. Alun ac Wmffra. Parti Cân Bop dros 18: 1. Wedi Methu.

LLÊN

Brawddeg o'r llythrennau RALA RWDINS: 1. Dewi Jones; 2. John Jones. Agored - Cyfarwyddiadau: 1. Bethan Williams. Llinell Goll: 1. Dewi Jones.

ARLUNIO

11-15: 1. Rhodri; 2. Rhodri; 3. Eleri.

COGINIO

Dan 15: 1. Bethan; 2. Elain; 3. Gwenno. Agored - Eccles: 1. Llinos Cadwaladr; 2. Joy Glyn. Agored - Sbwng wedi ei hadurno: 1. Llinos Cadwaladr; 2. Llinos Cadwaladr a Joy Glyn; 3. Elena Jones. Agored - Jam Mwyar Duon: 1. Llinos Cadwaladr a Heulwen Jones. Marmaled Oren: 1. Llinos Cadwaladr a Jill Brown.



Hefina Jones, a enillodd dlws rhoddedig gan Alun Williams yng nghystadleuaeth y Gân Werin dan 18 oed.

GWAITH LLAW

11-15 - Model: 1. Geraint a Ceirion; 2. Catrin; 3. Manon; 4. Fflur. 11-15 - Gwaith Coed: 1. Hefina; 2. Geraint a Delyth. Gwau Tegan Meddal: 1. Gweneirys Jones; 2. Llinos Cadwaladr; 3. Elena Jones a Llinos Cadwaladr. Cardigan: 1. Elena Jones.

FFOTOGRAFFIAETH

1. Tomos Owen; 2. John Huws Roberts; 3. Tomos Owen. Sleid - Agored: 1. Duncan Brown.

Yn anffodus methodd Mr Trystan Iorwerth, Llywydd y prynhawn a Mr Alwyn Jones, Llywydd yr hwyr a bod yn bresennol yn yr Eisteddfod. Dymuna'r pwyllgor ddolch iddynt am eu dymuniadau da i'r Eisteddfod.

RHODDION

Gyda diolch i'r canlynol am eu roddion hael tuag at Gronfa'r Eco. £5: Miss Dilys Jenkins, Tyddyn Elan, Llanrug; Nyrs Mair Williams a'r teulu, Fferm Bodhyfryd, Waunfawr; Mrs Ellis, Gors, Brynrefail; Mr a Mrs John Morris, Rhiwen, Deiniolen. £3: Derek a Delyth Pritchard, Trigfa, Llanrug; Mrs Jean Jones, Geraint a Bethan, 1 Tai Cynfi, Deiniolen; Mr a Mrs Eifion Griffith, Bwthyn y Foel, Dinorwig; Mr a Mrs K. V. Jones, Cenlyn, Llanrug.

£2: W. J. Close, 16 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mr a Mrs John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig.

CYFNEWID CARDIAU

Bûm yn casglu cardiau Pêl-droed Americanaidd '86-'87 ac mae'r set gyfan gennyf ond pedwar, sef Dennis Harrah, Ken O'Brien, Freeman McNeil a Lee Williams. Mae gennyf docyn o gant o gardiau sbâr i'w cyfnewid â rhywun sydd a diddordeb. Ffoniwch Llanberis 870760 a gofynnwch am Ynyr.

ATODIAD CWM-Y-GLO

DIOLCHGARWCH EGLWYS SANT GABRIEL: Cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch 15 a 16 Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid fore Sul gan y Parch L. O. Arridge a'r Gosber am chwech gan y Parch Peter Prichard, Caernarfon. Nos Lun cynhaliwyd Gosber a'r pregethwr gwâdd oedd y Parchedig Canon Richard Llewelyn Owen, o'r Eglwys Gadeiriol ym Mangor. Yr organydd yn y gwasanaethau oedd Mr John Morris, Llanrug, a diolch yn fawr iawn iddo.

Dymuna'r wardeiniaid ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a blodau a dderbyniwyd.

Cynhaliwyd Ffair y Cynhaeaf yr Eglwys yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth 17 Hydref, a'r elw yn mynd tuag at yr Eglwys. Daeth nifer dda yno i gefnogi'r gweithgareddau.

Enillwyr y raffl fawr - Basgedi Nwyddau: Dave d/o D.M.M. Llanberis; Miss Ruth Jones, 24 Dôl Afon, Cwm-y-Glo; Mrs Olwen Williams, Porthmadog. Potel o Sieri: Mrs Williams, Pant Afon, Cwm-y-Glo. Potel o Win: Mrs Mary Crowther, Cwm-y-Glo. Gwydrau: Mrs Jean Jones, Llanberis. Blwch llwch: Mrs Jones, Seiont House, Cwm-y-Glo. Lliain bwrdd: Mrs Gwennie Morris, Cwm-y-Glo. Dysgl Wydr: Mrs Helen Roberts, Cwm-y-Glo. Potel o Win: Mr Ted Roberts, Cwm-y-Glo. Bag hamddena: Mr Wyn Morris, Cwm-y-Glo.

Enillwyr raffl y stondinau - Bocs Nwyddau: Donna Williams, Cwm-y-Glo. Potel Sieri: Sara Wager, Brynrefail. Bocs Coluro: Mrs Morris (nain Becws), Cwm-y-Glo. Bocs Siocled: Mrs Mary Roberts, Cwm-y-Glo. Tegan Meddal: Mrs Hilda Orritt, Cwm-y-Glo. Tray Arian: Terry Williams, Cwm-y-Glo. Bocs o lysiau: Arwyn Jones, Cwm-y-Glo. Brws dillad: Miss Hughes, Tan-y-Graig, Cwm-y-Glo. Bag Coluro: Bethan Hughes, Cwm-y-Glo. Dyfalu faint o bys mewn potel: Nicola Haston, Brynrefail.

Dymuna wardeiniaid yr Eglwys ddolch o galon i bawb am roddion at y raffl ac am bob cefnogaeth i wneud y noson yn un mor lwyddiannus.

CHIROPDIST

Gwasanaeth yn eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon


LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

5754

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

GWILYM H.

WILLIAMS

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD**

BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

CYNNYRCH EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

Gwaith buddugol Dylan Lloyd Jones, dosbarth 2 Ysgol Brynrefail
- Prif Lenor yr Ifanc.

Dyddiadur Wythnos

Dyma ddydiadur wythnos Guto Huws, gwr o Ddwyran, Môn. Cafodd ei ddedfrydu i farwolaeth gan Lys y Goron, Caernarfon, ar ddydd Mercher, Hydref 25, 1987. Roedd wedi lladd ei dad-yng-nghyfraith gyda cryman ar ôl ffrac danllyd. Roedd yn mynd i gael ei grogi ar y cyntaf o Dachwedd, 1872 am naw o'r gloch.

Dydd Mercher, Hydref 25, 1872

Rydwyf wedi cael fy rhoi i eistedd yn fy sedd yn fy nghell, cell y condemniedig! Mae fy nghalon yn curo fel gordd. Er i mi ddweud wrth pawb fy mod yn ddi-euog, does neb yn fy nghredu i. Mae hyd yn oed fy mhlant fy hun yn dweud fy mod yn llofrudd, er hynny mae diwedd fel hyn yn well na cael fy rhyddhau a'm llabyddio i farwolaeth. Mae'n tynnu am naw o'r gloch erbyn hyn, mae'r haul yn felyngoch dros y Fenai, ond welai byth mo Ddwyran eto, dim ond y crogbren sydd yn fy nisgwyl i yn awr.

Mae rhaid dweud bod y bwyd yn ofnadwy! Efallai fod y mab afradlon wedi cael gwell bwyd wrth fwydo'r moch.

Dydd Iau, Hydref 26, 1872

Heddiw oedd fy niwrnod llawn cyntaf yma. Mae oglau hen cryf yma. Y bore yma fe ddeffroais gyda sgrech, edrychais drwy'r ffenestr fechan, gan weld corff marw yn hongian o'r crogbren, roedd ei wyneb yn welw, a'i draed yn flawd gwyn i gyd.

Y prynhawn heddiw, cefais fy ngyrru i droi'r olwyn droed, sôn am waith caled. Ond doedd hynny ddim byd i gymharu â beth gefais i y 'pleser' o'i wneud wedyn, glanhau celloedd yr hen ddynion. Roeddwn wrthi'n gwneud hynny, pan ddaeth tri gwr heglog y tu ôl i mi, roeddynt wedi clywed beth oedd wedi digwydd i fy nhad-yng-nghyfraith. Lluchiodd y tri heglog fi yn erbyn y wal, rhoi dwrn i mi yn fy nhrwyn, a rhoi peltan i mi ar draws fy llygad chwith. Dwi ddim yn gweld fy hun yn cysgu heno; Cefais fy nghuro gan y tri nes yr oeddwn bron yn gelain. Does diben achwyn amdanynt. Fe fydd rhaid i mi geisio cysgu, diwrnod mawr yfory, mae Jen y wraig yn dod i'm gweld, gyda gobaith daw y plant gyda hi. Mae fy meddwl yn corddi, efallai - Pam? - Sut? Na nid yw hyn yn digwydd i mi, mae'n hunllef ddi-ddiwedd.

Dydd Gwener, Hydref 27, 1872

Fe ddoth Jen wedi'r cwbl, ar ei phen ei hun. Yn ei geiriau hi; "Dydi'r plant ddim eisiau dy nabod di mwyach, fe laddaist ti 'taid Wmffra', gan ladd dy berthynas di gyda nhw hefyd". Ond mae rhaid cyfaddef fy mod wedi torri lawr o'i blaen hi; roedd fy mywyd teuluol ar ben, marwolaeth ydi'r unig ffordd allan rwan. Bara menynd gefais i de heno, roedd y bara yn dechrau

llwydo, a'r menynd yn drewi. Mae'n ddydd Sadwrn yfory, dwi ddim yn cael gadael fy nghell yfory. Bydd y drws dan glo, a'r ffenest wedi ei gorchuddio gyda gorchudd trwm. Mae fy niwedd yn agosau bob dydd, a cannwyll fy mywyd yn dechrau llosgi allan.

Dydd Sadwrn, Hydref 28, 1872

Pob hyn a hyn yn fy nghell fe glywaf lygod mawr yn rhedeg ar draws y llawr. Ar y coridor y tu allan, rwyn clywed y swyddogion yn siarad. Fe glywaf wylanod yn cadw swm, mae coeden yn taro'r bariau pob hyn a hyn. Mae'n wyntog y tu allan a'r gell yn gyrru ias oer lawr fy nghelfn, ysgwnni faint o bobl ddi-euog sydd wedi cerdded lawr y grisiau, lawr y coridor, allan o'r adeilad a cerdded trwy'r dref i'r crogbren ym Modfan? Ond mi wn i mai dyna fydd fy nhynged i ymhen tri diwrnod. Mae pobman wedi mynd yn ddistaw. Rwyf am fynd i gysgu rwan. Mae'n ddydd Sul yfory, fel arfer fe fyddaf yn cael coes oen i ginio ar ddydd Sul, ond dim yfory, ni wyr neb ein tynged yfory.

Dydd Sul, Hydref 29, 1872

Am ddeg o'r gloch y bore yma fe roeddem i gyd yn eistedd yn y capel. Lle llwm, distaw ydoedd. Am hanner awr wedi deg daeth y gweinidog i mewn. Y Deg Gorchymyn oedd ei bregeth. Canwyd yr Emyr 'Pan oeddwn i mewn Carchar Tywyll Du, Rhoist i'm oleuni, Rhoist i'm oleuni nefol'. Anodd oedd gweld goleuni yn y fath le. Ar y diwedd, pan afaelodd y swyddog yn fy mraich, roedd un darn o'i bregeth yn atseinio o gwmpas fy mhen "NA LADD". Drwy'r dydd roedd y ddau air yna yn mynd o gwmpas yn fy mhen. Gofynnais am ganiatad i aros yn fy nghell am weddill y diwrnod. Tarodd y cloc am naw o'r gloch. Gorfeddais ar fy ngwely caled. Roedd fy nghorff yn ddiffwrwyth meddyliais am Wmffra Pant Glas, fy nhad yng nghyfraith, ac am miri y byddai'r teulu i gyd yn cael pob Nadolig. Ond doedd dim Nadolig i fod eleni.

Dydd Llun, Hydref 30, 1872

Daeth diwrnod arall i ben. Bore yma fe ddigwyddais edrych drwy'r ffenest. Roedd corff noeth yn gorwedd yn gelain yno. Dywedodd swyddog mai dim ond hanner y condemniedig a gai ei crogi yn Bodfan, cai'r hanner arall ei crogi yn nhir y carchar.

Rwy'n teimlo'n gysglyd, mae'r awyr yn felyngoch dros sir Fôn. Roedd y lleni wedi eu tynnu, er mwyn i mi gael gweld fy ngolygfa ola'.

Dydd Mawrth, Hydref 31, 1872

Mae heddiw'n ddiwrnod pwysig iawn imi, mae rhaid i mi weld y gweinidog. O'r diwedd wedi erfyn ar y gweinidog fe gefais ddweud fy mhwt. "Yr wyf fi yn cyfaddef i farwolaeth fy nhad-yng-nghyfraith. . ." Gadawodd y gweinidog fi. Ni chai fwyd heno.

Crogydd Guto Huws o'r pren am naw o'r gloch, fore Mercher, Tachwedd y cyntaf, 1872, yn ddyn anhapus a digalon iawn.

Y Trip

Yn Salem wedi'r Oedfa, Mewn pwyllgor un nos Sul, Fe gododd y pen blaenor Gan ddweud yn sych a chul.

"Rhaid i chwi ddewis heno Ple'i fynd a Trip y Plant, Rhwng Dolwar Fach a'r Bala, Neu Ty Mawr Wybernant."

"Wel beth am Rhyl," medd Martha, "Fan honno y cawn hwyl." "Rwy'n eilio," meddai Tomos, "Lle iawn i dreulio'r Wyl."

Fe drechwyd yr hen flaenor Mewn pleidlais ddigon teg, O'i blaid roedd un yn unig, Yn erbyn triarddeg.

A cyrraedd Rhyl a wnaethant Ar fore Sadwrn braf, Rhai'n llon ac iach pob amser, A rhai pob Sul oedd glaf.

Aeth Dei a Gwen i'r Bingo Yn slei drwy ddrws y cefn, A dychryn pawb gan weiddi "Full House" ar Legs Eleven.

Fe dreuliodd Nel ei diwrnod Yn eistedd mewn Ghost Train Mewn gobaith o gael altro Ewyllys Tyddyn Hen.

Aeth llawer blwyddyn heibio Ers i William wasgu Kate Ond do, bu'n rhaid ail afael Ar ben y Figure Eight.

Ac meddai hithau wrtho "Rwyf yn dy garu'n fawr." "Gwell cydio," meddai yntau "Na syrthio acw i lawr."

Ac yn y môr roedd Ifan Yn ceisio cadw'r oed, Ar chips a gaeth i ginio Rhwng bys a bawd ei droed.

Y trip sydd drosodd bellach, Bydd sôn amdano'n hir, Rhai'n canmol ac yn brolio, Rhai'n gwrthod dweud y gwir.

A dau yn llai o gyfri Yn Salem sydd yn awr, Y wraig oedd ar yr organ A'i gwr hi, o'r Set Fawr.

Mae'r plant yn methu deall O gofio'r mul bach syn, Sut llwyddodd yr hen flaenor I lyncu un fel hyn.

Huw Thomas, Gwenallt, Llanrug.

Y Soned yma a ddyfarnwyd yn orau o holl gynnyrch llenyddol yr oedolion. Cerdd a enillodd y gadair i Dafydd W. Thomas. Dyma'r ail dro i Dafydd gipio tlws eisteddfod ei bentref.

Soned

Cofio (Ugain mlynedd wedi'r Arwisgo)

Nid oedd dim byd gwahanol yn y dre Yn chwe-deg-naw, nag sydd i'w ganfod nawr; Pobl, plant, cofis oedd yn llanw'r lle, A bysus, mawr a bach, yn mynd bob awr Am Glynog, Nantlle, Bethel a Thalsarn A'r holl bentrefi eraill yn eu trefn; Ar ffilm, daeth gwn y cowboi'i danio'i farn A'r caru'n prysur g'nesu'r seti cefn.

Rhyw newid graddol ddaeth i'r dre'n y man, A seiniau dieithr ddaeth i'r People's Caff. "Ai rheina ydi'r Cwîn a Prinses Ann?" - "We've come to quaint old Wales, just for a laugh" - Do, daeth y dydd, a'r Cymry'i gyd o'u co Yn chwifio Union Jack pasgedig lo.

Gwerinwr

Parodi ar 'Mab y Mynydd' gan Eifion Wyn Ni Biau Arfon

Nyni yw'r Arfonwyson, Sy'n caru erwau'r gwynt; Etifedd hen gynefin, Ein taid a'n neiniau gynt; Mae Siân, y wraig a minnau Y Cymry gorau gâd; Ein dau o hen deuluoedd, Grawn o 'hen yd y wlad'!

I eraill, ddynion dwad - Encil, o firi'r dref; I Siân, y wraig a minnau, Mae rhos y 'Rug' yn nef.

Bob nos yr awn i orffwys A chysgu oriau maith; Ni fydd un gofal arnom Ond 'morol am ddydd gwaith; Mae gennym loc o ddefaid A buchod ar y ddôl; â neb ond Siân a minnau I edrych ar eu hôl.

Caed eraill ddillad gwychion A dyled drom o'u hôl Mil gwell yw brat a chloesiau, Crysbas ac ofer-ôl.

Ni fynnem well adloniant, Na lluniau ar y sgrîn; Neu noson yn y Bingo A siawns am ennill 'sgrîn'; A chyfwr noson Whist dreif Am sgwrs a sgon a the; I drafod pris y trydan A rhoi y byd'n'i le.

Caed eraill sbloet o wyliau, 'Marina' neu 'Teim Siêr'; Ond rhowch i Siân a minnau Bryd 'Bistro' yn Llanbêr.

Câr Cynefin

CYFARFOD TEYRNGED Y PRIFARDD

Nos Iau, Hydref 19, roedd Neuadd Ysgol Brynrefail yn orlawn cyn 7.30, a'r gynulleidfa'n disgwyl yn eiddgar am ymddangosiad y Prifardd Selwyn Griffith. Fe'i cyrchwyd i'r llwyfan gan blant Ysgol Penisarwaun, a pherfformiwyd y ddawns flodau gan enethod o Ysgol Llanrug. Yn ystod y noson, cafwyd eitemau gan blant o holl ysgolion cynradd y fro, gan bartion, unawdwyr a dawnswyr. Roedd Band Deiniolen hefyd yn cymryd rhan. Llywiwyd y noson gan Arwel Jones a Phyllis Ellis o Benisarwaun. Ymhlith yr unigolion a ddaeth yno i gyfarch y Prifardd roedd dau Brifardd arall, sef Emrys Edwards o Gaernarfon, a Ieuan Wyn o Fethesda. Gyda'u caniatâd parod, cyhoeddwn eu cyfarchion:

I GYFARCH AWEN SELWYN

Mor hen, hen ein barddoniaeth; hi y dwfn
y dwfn

Ystyfnig dreftadaeth;
Mor ddwfn, ddwfn hyd oni ddaeth
Ei hadlais i'n cenhedlaeth.

Y dwfn lif drwy'r canrifoedd, awen hon

I hil y mynyddoedd,
A dwfn i'n cyndadau oedd
Nodded ei mil blynyddoedd.

Hi yw ein twf, hi ein tafod, a hon

Yw arch ein cyfamod;
Drwy'n byw yn nyfnder ein bod
Hi ein harf rhag ein darfod.

Ym mro'r bardd mae aur y byd;
aur y cof,

Mawr yw'r cyfoeth hefyd;
Yr iaith yn parhau o hyd,
Hon i'r galon yw'r golud.

Sut Gymry all daflu'r dis neu

Am geiniog ddydd dewis?
Pa ryw iaith o dalu'r pris?
Pa eiriau ym Mro Peris?

Rhag estron yng Nglynrhonwy'r
anobaith

A ddaw neb i'r adwy?
Heb y cof ni bydd gofwy,
Dim oll ond y gwactod mwy.

Mae'r Gymraeg mor rhyw egwan,
ond eto

Dialat ei datgan;
Hi yw'r gri dros y gaer wan,
Hi'r cof rhag colli'r cyfan.

Ond ifanc, ifanc o hyd ei hawen,
A hi yw'n dedwyddyd;
Heb awen pa werth bywyd?
Heb iaith pa ystyr i'n byd?

Safwn, a dathlwn y dydd, a heddiw

Cyhoeddwn drwy'n broydd
Yr awen mewn llawenydd,
Yr iaith yn llefaru'n rhydd.


A'r dylif yn frwd eilwaith o ffynnon
Ein gorffennol uniaith
Ymrown ym mwrlwm yr iaith
A rhown heibio'r anobaith.

Rhown goron i farddoniaeth' ei hurddas

Yw harddwch treftadaeth;
Rhown ddawns i'r awen a ddaeth
Yn adlais i'n cenhedlaeth.

Y goron am y geiriau, y goron
Am gywrain blethiadau;
A choron am dy ddoniau
Yw'r goron hon i'th fawrhau.

Ieuan Wyn



Rhodd gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen i'w Clerc – Selwyn Griffith – i gofio achlysur ennill Coron y Brifwyl. Cyflwynwyd englynion o waith y Prifardd Elwyn Roberts iddo ar ran y Cyngor gan y Cyng. Phyllis Ellis a'r Cyng. Richard Ll. Jones ar ddiwedd y Noson Deyrnged

CYWILYDD

Ydi safonau ymddygiad
cynulleidfaoedd yn newid?
Mewn 'steddfod mae llawer o
fynd a dod rhwng cystad-
tleuthau, ond o leiaf, mae'r
cystadleuwyr yn cael gwan-
dawiad.

Ond yn Noson Deyrnged y
Prifardd Selwyn, roedd sawl
aelod o'r gynulleidfa (ac nid
plant mân mohonynt 'chwaith)
yn hollol ddifanars, ac un ai'n
siarad neu hyd yn oed yn codi a

cherdded yn ôl ac ymlaen yn
ystod perfformiadau gan bar-
tion ac unigolion.

Yn ystod y mis nesaf, mae
amryw o gyngherddau a
nosweithiau adloniadol wedi eu
trefnu yn Neuadd Ysgol
Brynrefail. Gobeithio'n wir y
bydd cynulleidfaoedd y noswei-
thiau hyn yn dangos mwy o
barch tuag at y rhai sy'n ymd-
dangos ar y llwyfan nag a
wnaethpwyd yn ddiweddar!

ENGLYNION I GYFARCH Y PRIFARDD SELWYN

Llefych! Fe ddaeth i'r llwyfan – yn
warsyth

I'w orsedd, Fardd diddan;
Cofio mae'r pentre cyfan
A balchder mawr, gawr y gân.

I'r cawr swil rhoir croeso hardd –
o'i lafur

I lwyfan Coronfardd;
Dewin o foi, dyna Fardd
Brofodd ei hun yn Brifardd.

Wele Fardd: ail i Fyrddin – yw'r
mydrwr

Medrus anghyffredin;
Dawn a fedd o ryfedd rin
Yn rhodd Duw i gerdd Dewin.

Ac felly'r mwyn gyfeillion – heno
rhowen

Ein HWRE! i'r gwron;
'Does neb mwy o Fynwy i Fôn
Na'r gwr a wisga'r Goron.

Da yn awr, gweld ffrindiau'n hel – i
gofio

Llongyfarch Bardd uchel
Heb ei fath, boi o Fethel,
Un dawnus iawn. Da iawn. Sell

Emrys Edwards

DIOLCH

Dymuna Len Jones, cyn-
brifathro Ysgol Tan y Coed,
Penisarwaen, ddiolch i rieni a
phentrefwyr yr ardal am eu
cefnogaeth dros y blynyddoedd,
a'u haelioni ar achlysur ei y-
madawiad.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CHWARELWYR LLANRUG 1958



Anfonwyd y llun uchod i'r Eco gan Mrs Jennie Jones, Llandudno. Mae
ei thad, y diweddar Richard Green (Pandy, Ponrhythallt) yn eistedd yn
y canol. Roedd yn 81 oed pan dynnwyd y llun, a dywed Mrs Jones
iddo ymddeol o'r chwarel o fewn ychydig fisoedd wedi i'r llun ei dynnu.
Ar gefn y llun mae enwau'r gweithwyr eraill: Evan Williams, Lôn Las,
Llanrug (chwith eistedd), Hugh Môr, Lôn Bost, Llanrug (de eistedd) a
Jackie Glasdy, Llanrug (sefyll cefn).

Tybed a oes rhai o'r darllenwyr â gwybodaeth ynglyn ag oedran ymd-
deol chwarelwyr – os oedd Richard Green yn parhau i weithio yn
Ninorwig yn 81 oed!

ECO'R IFANC

CYSGODION!

CORNEL JÔCS

Beth ddigwyddodd i'r lleidr a ddy-
godd galendr?
Fe gafodd ddeudeg mis!

Beth ydy hoff ddiod llyffant?
Croc-a-Cola!!

Beth sy'n oer ac sy'n dod mewn
tun?
Chilli-bîns!

Be' ti'n galw parot o'r Alban?
MacCaw!

Beth yw hoff raglen deledu
buwch?
Dr Mw!!!!

Be' gei di wrth groesi giraff hefo
draenog?
Brwsh dannedd hir iawn!

Glywsoch chi am yr hogyn 'na a
arhosodd i fyny drwy'r nos yn trio
dyfalu i ble'r aeth yr haul?
O'r diwedd fe wawriodd arno!


Beth ddywedodd y llaw fach wrth
y llaw fawr?
'Welai di mewn awr!

Be' 'di enw dy gi newydd?
'Dwn i ddim - wnaiff o ddim deud!


Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng elif-
fant o'r India ac elifant o Affrica?
Tua tair mil o filltiroedd!

Pam nad ydy robot yn ofni dim?
Am fod ganddo nerfau o ddur!


Lliwiwch pob siâp sydd ag UN
smotyn yn LAS. Lliwiwch y siapiau
eraill yn OREN.



Cwblhewch
a
lliwiwch
Tedi



LLIWIWCH Y LLUN



1. coch 2. melyn 3. brown
4. gwyrdd 5. glas 6. pinc 7. du


Barddoniaeth Safon 1 a 2

PILI PALA

Pili Pala
Petal bach lliwgar
Yng nghanol yr ardd
Hedfan o amgylch
Yn edrych mor hardd

Lliwiau yr enfys
Fel patrwm bach tlws
A minnau yn syllu
O gysgod y drws.

Michael Roberts
Safon 1



Mwy o straeon am y Storm a'r
Parti ar dudalen 14

STORIAU BUDDUGOL O STEDDFOD LLANRUG -OEDRAN YSGOL GYNRADD-

Bu dwy Eisteddfod bentref leol yn ddiweddar sef Eisteddfodau'r Waunfawr a Llanrug.

Dyma beth o gynnyrch un o'r 'Steddfodau hynny i chi gael eu mwynhau. Da iawn chi blant!

Mae'n fis Tachwedd yn barod, a chyn pen chwinciad – fe fydd y Nadolig yma! Beth am GYSTADLEUAETH ym mis Rhagfyr – Dyma gyfle i chi rwan baratoi unai llun neu stori am y Nadolig. Bydd gwobrau ar gael i'r cynnyrch mwyaf gwreiddiol.

Ysgwn i Fedwrch chi greu Cerdyn Nadolig syml?
Dewch 'ta – Cofiwch am y gwobrau!

Anfonwch eich gwaith i'r Gornel, Eco'r Ifanc, Pant
Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug.

Rhyddiaith Safon 3 a 4

Y STORM

Daeth y diwrnod, y diwrnod gorau. Mynd i Majorca. I ffwrdd â ni yn yr awyren Dan Air, London. Ar ôl gweld mai awyren fach roeddem yn gael roedd dad ac anti Mair reit ofnus. Ar ôl cyrraedd cawsom bythefnos o haul a hwyl. Nid oedd dim wedi digwydd i ddifetha ein gwyliau, ac yn awr roedd yn amser mynd adref. Roedd hwn y diwrnod poethaf a welodd y peilot erioed medde fo ar y radio fach. Roeddwn yn teimlo fy mod yn mygu wrth eistedd yn yr awyren yn disgwyl iddi godi. Cychwynodd, ond stopiodd, roedd pawb wedi dychryn, a dywedodd y peilot fod yn rhaid i'r injan gael cymorth ychwanegol am fod y tywydd yn rhy boeth. Ond doedd hyn ddim byd i beth oedd i ddod. Cychwynodd eto ac i ffwrdd â ni. Roedden ni yn dringo yn uwch ac yn uwch a phawb wedi setlo i lawr am y daith. Roeddwn yn eistedd yn yr un rhes a Catrin a Iolo, ond y fi oedd agosaf at y ffenest. Roedd mam a dad yn eistedd gyferbyn, ac anti Mair ac yncl Howyn ac Eifion yn eistedd y tu ôl inni. Dywedodd y peilot yn sydyn,

"Peidiwch â cynhyrfu dim, mae'n rhaid inni drafailio drwy storm uchben Ffrainc."

Daeth golau FASTEN YOUR SEATBELT ymlaen. Dychrynodd pawb, fflach, crash, roedd yr awyren yn mynd i fyny ac i lawr fel llong ar y môr. Roeddwn bron a chrio. Fflach, crash, bang eto, roedd y swn yn diasbedain ac roedd yn awyren yn siglo o ochor i ochor ac i fyny ac i lawr. Roedd y glaw wedi gwneud y ffenestri mor wlyb nid oeddech yn gallu gweld yn glir trwyddynt. Roedd yr awyren yn mynd yn is ac yn is ac roedd y tir fel môr mawr du y tu allan. Tu mewn, roedd pawb bron a rhoi sgrech neu grio. Roedd ofn ar bawb, bob tro roedd mellten roedd yr awyren yn crynu a phawb yn crynu y tu fewn hefyd.

Aeth Iolo i grio gan ofn. Roedd dad ag anti Mair bron ag ymuno efo fo. Roedd pawb yn gafael yn eu seti yn dyn a phapurau yn hedfan i bobman. Roedd y stiwardes yn cerdded i fyny ac i lawr yn trio setlo pawb, ond ddim yn cael llawer o hwyl. Roeddwn yn clywed y glaw yn taro ar y ffenestri ac ar y to fel cerrig mân. Meddyliais mor braf fyddai bod adref yn y fath dywydd. Roedd fy mol wedi troi a'i ben i lawr erbyn hyn a'r amser yn hir, hir.

Roedd yr holl hercian wedi codi dychryn ar bawb. Mi wyddwn yn iawn beth oedd yn mynd trwy feddwl pawb. Mor braf fydd glanio yn Manceinion. Pawb wedi cael gwyliau hapus iawn, ac yna gorfod teithio adref fel hyn.

Yn sydyn, tawelwch, gwelais Lloegr odanym yn glir a'r haul yn tywynu yn braf. Rhoddodd pawb ochenaidd o ryddhad ac roeddwn yn hanner gwenu. Rhoddais wên llawn, roedd yr awyren yn mynd yn is ac yn is, a clywais y peilot yn siarad ar y radio fach.

"We passed through a big storm but we are going to land safely in Manchester. Please do not pull your safety belt off, thank you."

Gwenai pawb yn braf, glanio'n saff a pawb yn gweiddi hwre.

"Would you please go out as quickly as you can, thank you," meddiai'r stiwardes. Roeddwn mor hapus doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud. Dywedais diolch a rhedeg i'r maes glanio i ddisgwyl i dad ac yncl Howyn gael eu bagiau.

Roedd mam ac anti Mair yn dal i grynu ac aeth y ddwy i chwilio am baned. Aeth pawb i ddal y bys i fynd a ni i'r maes parcio ac wedi pacio dyma gychwyn am Llanrug. Cysgais yn y car ar y ffordd adref a breuddwydiais am y storm. Roeddwn wrth fy modd pan drodd dad i fyny y lon fach at y ty. Roeddwn yn saff go iawn rwan.

Gareth Wyn Roberts
Safon 3

O EISTEDDFOD LLANRUG Y STORM

14 - HYDREF - 1842

Dyma fi heno yn yr ysbyty yn sâl ac yn wan yn edrych yn ôl ar un noson arbennig, bedair blynedd yn ôl. Yn fy llaw mae'r fedal a gefais o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd.

Fy nhad oedd gofalwr y goleudy a fo fyddai'n gofalu fod y golau ar y twr goleudy ynghyn.

Un noson ofnadwy pan oeddwn yn ddau ddeg tri oed, cododd storm anferth ar y môr o gwmpas y goleudy. Hon oedd y storm waethaf a welais i erioed.

Roedd y tonnau yn taro yn erbyn y creigiau a'r ewyn yn neidio i fyny ac i lawr fel cefylau gwynion, gwyllt ac yn tasgu i bobman. Roedd yr awyr yn ddu fel y fagddu a'r glaw yn glafoerio i lawr o'r awyr, a'r gwynt, y mell t a'r taranau i'w gweld a'u clywed ym mhobman o amgylch.

Yn sydyn, trwy'r golau o'r twr gwelodd fy nhad long yn cael ei chwythu at y creigiau tua hanner milltir allan yn y môr. Edrychai fy nhad yn bryderus iawn a gofynais iddo oedd rhywbeth y gallwn ni ei wneud.

"Na," atebodd.

"Ond mae'n rhaid i ni drio gwneud rhywbeth, mae'n well cael llai o bobl marw yntyd?" dywedais a chytunodd fy nhad.

Yna dyma ni yn ein dillad glaw yn gadael fy mam yn sefyll wrth ddrws y goleudy i'n gwyllo yn gwthio'r cwch rhwyfo bach allan i ganol y cefyllau gwyllt i geisio achub pobl y llong.

Cawsom drafferth ofandwy i rwyfo'r cwch bach drwy'r tonnau

anferth oedd yn codi uwch ein pennau, a'r gwynt yn chwythu'r glaw i'n gwynebaw a'i gwneud hi'n anodd i ni weld.

Erbyn i ni gyrraedd y creigiau gwelais olygfa wnai fyth anghofio. Roedd rhai pobl yn ymdrechu i afael yn dynn yn y creigiau a rhai eraill yn stryffaglu i ddringo allan o'r llong a oedd erbyn hyn wedi ei hyrddio ar y creigiau a'i thorri yn ei hanner. O'r diwedd llwyddodd fy had i neidio ar y creigiau a helpu'r unig ddynes i'r cwch. Roedd hi newydd golli dau o'i phlant a rhai o'i ffrindiau. Roedd hi yn oer ac yn wlyb iawn iawn, yna helpodd fy nhad bedwar dyn i mewn i'r cwch a cheisio cychwyn yn ôl i'r goleudy. Rhoddodd dau ddyn hynny bach o gryfder oedd ganddyn nhw ar ôl ar un rhwyf yr un i gwlffio drwy'r storm.

Arhosais yn y goleudy hefo rhai o'r bobol tra roedd fy nhad a dau o'r dynion yn mynd yn ôl i nôl pedwar dyn arall oedd yn ddigon dewr i aros ar y creigiau.

Yn y goleudy cysgodd pawb tan y bore. Yng ngolau dydd doedd dim i'w weld o'r storm. Roedd y môr yn las a'r gorwel yn llonydd yn y pellter. Ar y creigiau roedd ychydig o breniau lle'r oedd y llong 'Forfarshire' wedi bod.

Wrth siarad â'r bobl clywsom fod pedwar deg tri wedi eu lladd yn y storm a'n bod ni wedi achub naw.

Grace

RHYDDIAETH SAFON 1 a 2 Y PARTI

Un diwrnod yn 1986 fe es i, Iestyn Huws i barti Sion Williams a fe gawsom sbort ofnadwy. Alun Wiliam yn rhoi cic i ben-ôl mam Sion a cael ei hel adref. Y ci, Ned, yn dawnsio gwerin gyda Anti Meg, Anti i Sion, a Rhys Penrhos yn rhoi ei droed yn y tân ac yn ei losgi. Huw a fi oedd yr unig rai ar ôl a cyn pen dim roedd Huw wedi cael syniad. Aeth i nôl dau obennydd a bag plastig a cas pensiliau. Aeth i nôl Shonc y ci a pensiliau lliw a lliwio gwaelod coes Shonc yn goch a du a rhoi bac plasstig o'i amgylch a'i lapio gyda dau obennydd. Fi oedd yr unig un ar ôl a doeddwn i ddim yn gwbod beth i'w wneud.

"Dw i ddim yn gwybod beth i'w wneud," medde fi yn obeithiol i gael help.

"C'mon, tud laen," meddai Rhys Penrhos.

Dyma fi yn meddwl yn gyflym ac yn cael syniad gwych. Beth am dynnu y blodau o'r pot a rhoi carreg reit fawr i mewn a wedyn rhoi nhw yn ôl a fe wnawn nhw popian allan. Rhoddodd garreg i

mewn ond yr un amser craciodd y pot a malodd y blodau yn racs jibiders.

"Fy mlodau a fy mhot," meddai mam Sion bron iawn a crio a cefais i fy hel adref.

Dywedais i wrth bawb cyn mynd adref "Parti naw oed brilliant te - wedi blino'n lân.

Dalglish

LIMRIGAU

Yn enwi dau berson amlwg

Roedd gan Einstein ei grêd relativity; A Newton a boenai am grafiti;

Ond breuddwydiwyr wyf fi

Yn reit siwr ichi

Mae 'na bumpunt o ffi am roi limrigi ti.

Cofi

Dau Ddafydd sy'n ymladd yn gadarn Dros hawliau ein cenedl fechan


Gobeithiwn weld dydd

Bydd Cymru yn rhydd

A'r ddau yng Nghaerdydd - nid San Steffan.

Taliesin

TLWS ER CÔF



Iwan Rhys Owen, Dosbarth 1, Ysgol Brynrefail gyda'r tlws a enillodd yn Eisteddfod Bentref Llanrug am y cynnyrch gorau o blith yr ieuenctid yn yr Adran Celf a Chrefft.

Cyflwynwyd y tlws, i'w roi'n flynyddol, er côf am Emma Barnard, a fu farw mor gynamserol mewn damwain ar y ffordd, rai wythnosau'n ôl. Roedd Emma's gystadleuydd brwd yn Eisteddfod Llanrug, gan ennill nifer o wobrau yn yr Adran Celf a Chrefft tra'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail.

Enillodd Iwan nifer o wobrau am arlunio, ond y llun hwn o gno cell y coed a gipiodd iddo'r tlws am eleni.

NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL

PROFIAD GWAITH: Bu cant dau ddeg a phedwar o ddisgyblion y bumed flwyddyn ar wythnos o brofiad gwaith yn ddiweddar. Roedd y gwahanol feysydd profiad gwaith yn amrywio o ysbytai, ffatrioedd i waith swyddfa. Bu'r profiad yn agoriad llygad ac yn fwynhad i'r disgyblion. Cynorthwyodd 30 o athrawon drwy ymweld â'r mannau gwaith. Mr Hywyn P. Jones fu'n gyfrifol am y trefniadau fel Cyd-gysylltydd Profiad Gwaith yr ysgol. Dymuna ddolch i'r cyflogwyr lleol am eu cydweithrediad parod yn ystod yr wythnos hon.

DISGYBLION Y BEDWAREDD YN CHWARTER CALL? Tybed a welodd rhai ohonoch gyfrannwyr o Ysgol Brynrefail ar y rhaglen Chwarter Call yn ddiweddar? Bu Lowri Angharad yn adolygu cylchgronau a Tammi Jones yn cyflwyno'r bwletin newyddion. Gwnaeth y ddwy eu gwaith yn rhagorol. Beth am yrfa ym myd y cyfryngau genod?

Y 'STEDDFO: Rydym wrthi'n gweithio'n galed ar hyn o bryd ar gyfer 'Steddfof yr ysgol ar Dachwedd 9. Mae yna barti bechgyn (gyda chân well na llynedd gyda llaw, ac mae hynny'n dweud llawer!) côr cerdd dant, côr neu barti adrodd ym mhob cornel o'r ysgol wedi mynd. Oes, mae brwdfrydedd ymysg y tai. Ysgwni pa dy wnaiff ennill eleni? Ai Elidir eto tybed?

PRIODI: Dyna fu hanes Mr Hywel Roberts ein hathro Gwyddoniaeth yn ystod gwyliau'r Diolchgarwch. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddo.

CWMNI DAWNS YR YSGOL: Daeth cwmni dawns Diversions i'r ysgol yn ddiweddar. Dyma'r cwmni sy'n cynnal nosweithiau

diddorol yn Theatr Gwynedd ar hyn o bryd. Bydd Amanda Moloney 3D yn rhoi adroddiad llawn o'r ymweliad yn rhifyn nesaf yr Eco!

Y CHWECHED YN NANT GWRTHEYRN

Rhyw fis yn ôl fe fynychais, ynghyd â phum arall o'm cyddisgyblion gwrs deuddydd ym mhentref Nant Gwrtheyrn. 'Cwrs Datblygu Economaidd mewn ardal wledig' oedd yr enw a roddwyd ar y cwrs arbennig hwn a'i amcan oedd i roi cyfle i bobl ifanc arbrofi a blasu ychydig ar fyd busnes, masnach, amaethyddiaeth, diwydiant, ac ati. Yr oedd y cwrs wedi ei gynllunio'n drylwyr a phob agwedd ohono wedi ei drefnu'n ofalus; yn wir, i mi yr oedd yr holl weithgareddau'n cyfateb i rhyw fath o gêm 'Monopoly' real a ninnau i gyd yn rhan'allweddol ohonni. Ail-fedyddiwyd y Nant, am y tro yn 'Fro Cwm Angen' ac fe'n rhannwyd yn grwpiau neu garfannau o bobl, e.e., Y Cyngor Sir, Amaethwyr, Siopwyr Bychan, a.y.b. Gosodwyd tasg arbennig i bob grwp i'w chyflawni gyda phob tasg yn gofyn am waith ymchwil trylwyr a chydweithrediad pur rhwng y grwpiau. Ar ddiwedd y cwrs yr oedd pawb i baratoi arddangosfa o'u gwaith a theg yw dweud fod pob arddangosfa yn werth chweil.

Yr oedd hi'n amlwg fod pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr a bu'n gyfle gwych i gymdeithas â phobl ifanc o ysgolion eraill.

Yn sicr profodd yn ddeuddydd buddiol ond lludiedig tros ben a chawsom gyfle i fwynhau prydferthwch unigryw y Nant yr un pryd.

Eurgain Haf

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580



Sefydliad y Merched Brynrefail ym Mhlas Tanybwlech.

DATHLU PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Mrs M. L. Ellis, Gors, ar ddatlu ei phenblwydd yn 80 oed ar 27 Medi. Dymuna ddiolch yn gynnes i berthnasau a

chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd.
SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Cynhaliwyd cyfarfodydd Sul y Beibl eleni yn Eglwys Ebeneser

Deiniolen ar 1 Hydref. Cymerwyd rhan yng nghyfarfod y prynhawn gan y canlynol o blant ac ieuencid Eglwys M.C. Brynrefail: Catrin Gwyn, Nicola Houston, Marian Jones, Rhian Davies, Rhian Owen, Amy Lambert, Iestyn Williams a Mathew, ar y thema 'Y Fam Teresa'.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf gwnaed casgliad yn y pentref tuag at waith y Gymdeithas. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at y swm o £45.63 ac i drefnydd y casgliad, Mrs Jennie Roberts, Glandwr.

YMWELIAD: Nos Lun, 9 Hydref, bu aelodau o gangen leol Sefydliad y Merched ynghyd â'u ffrindiau ar ymweliad â Phlas Tanybwlech, Maentwrog. Rhoddwyd gair o groeso i bawb gan Mr Robin Jones, dirprwy-bennaeth y Ganolfan ac yn dilyn pryd blasus cafwyd sgwrs ddifyr ganddo ynghyd â chymorth sleidiau ar hanes cefndir y Plas a'i berchnogion ers yr unfed ganrif ar bymetheg. Diolchwyd iddo gan Mrs Pat Jones.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Caernarfon 3536

GWASANAETHAU CAPEL Y PENTREF: Disgwylir y pregethwyr canlynol yn ystod mis Tachwedd am 2 y prynhawn. 5: J. Pritchard; 12: Parch Trefor Jones; 19: Parch Stanley Williams; 26: S. O. Hughes.

PLAID CYMRU: Cynhelir noson Caws a Gwin yn 'Y Dalar Deg', Glan Beuno, Y Bontnewydd, ar nos Wener, 17 Tachwedd. Tocynnau wrth y drws neu o Clive Jones, Hafan.

NOSON GYMDEITHASOL: Cynhelir noson Caws a Gwin yn Nhafarn Glangwna, nos Iau, 2 Tachwedd, er mwyn codi arian at Apêl Eisteddfod yr Urdd, Pwyllgor y Cae Chwarae a pharseli Nadolig yr henoed.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr ar 12 Hydref. Ynglyn â chwynion yr aelodau ar gyfer cyflwr llithrig yr wyneb newydd trwy'r pentref, mae Syrffwyr y Sir yn cefnogi ei defnydd o'r wyneb newydd. Penderfynwyd i ail-ddatgan anafodlondeb y Cyngor i'r Cyngor Sir. Bydd yr Heddwes Bro yn mynychu'r cyfarfod nesaf o'r cyngor ar 22 Tachwedd. Ailymaelododd y Cyngor â Ch.N.D. Cymru. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i dalu cost ail-wynebu llwybr Prysgol, ond bydd rhaid cael caniatâd perchnogion Glangwna cyn bwrw ymlaen â'r gwaith. Rhoddwyd £50 i Gapel Caeathro ar gyfer gofalu am y fynwent a £150 i Bwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer parseli Nadolig y pensynwyr, y goeden Nadolig a gweithgareddau eraill y pwyllgor.

YSBWRIEL: Deallwn y bydd Cyngor Bwrdeistref Arfon yn cymryd gweithred yn y llysoedd yn erbyn y rhai gaiff eu dal yn gadael ysbwriel yn y pentref, yn arbennig gyferbyn â thair pentref. Ceisir cael cyfarfod â swyddogion Cyngor Arfon, perchnogion Gwersyll Glangwna, y cynghorydd dosbarth lleol a chynghorwyr cymuned lleol i geisio ymatal gadael ysbwriel ar ochr hen lôn Pontrug.

GWELLHAD BUAN i Mr P. Atkinson, Cefn Gof, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

GWEITHGOR CYMRU YN CEFNOGI'R PLAS EWROPEAIDD

Cynhaliwyd cynhadledd yng Nghanolfan Iaith Genedlaethol Cymru, Nant Gwrtheyrn yn ddiweddar (22-24 Medi, 1989) i drafod y syniad o addasu cyn dy perchennog y Nant i fod yn Blas Ewropeaidd.

Mae dros 30 o ieithoedd bychain yn y Gymuned Ewropeaidd gyda tua 50 miliwn o bobl yn eu defnyddio. Ers 1982 fe sefydlwyd Biwro'r Ieithoedd Bychain sydd a'i swyddfa yn Nulyn. Cyflawnir gwaith aruthrol gan staff fechan o dri a chynrychiolwyr yr ieithoedd bychain sy'n cyfarfod yn achlysurol i drafod y datblygiadau ac i weithredu rhai o bolisiau'r Biwro. Mae'r diddordeb cynyddol yn yr ieithoedd bychain yn brawf o lwyddiant y Biwro, a'r anhawster sy'n ei wynebu bellach yw na all ymgymryd â'r holl waith.

Er mwyn cefnogi gwaith y Biwro ac i fanylu ar rannau arbennig ohono, ystyriwyd gan Ymddiriedolwyr Nant Gwrtheyrn mai buddiol fyddai sefydlu Canolfan ar gyfer ieithoedd bychain Ewrop yn y Nant a'i leoli

yn y plas. Eisoes fe gysylltwyd â'r Comisiwn Ewropeaidd a chafwyd ei gefnogaeth i wneud arolwg o'r sefyllfa i weld pa mor ymarferol yw'r cynllun ac i baratoi rhaglen waith ar gyfer y Ganolfan.

Cymal cyntaf y Cynllun oedd y Gynhadledd o Weithgor Cymru a gyfarfu i drafod y cynllun arfaethedig ac i asesu ei werth. Cafwyd cynrychiolwyr o bob rhan o Gymru yn y Gynhadledd ac o bob maes llafur yn cynnwys addysg, adloniant, teithio, gwyliu, cyhoeddi ac yn y blaen. Cadeiriwyd y sesiynau gan Mg Carl Clowes a'r Bnr Allan Wynne Jones a phwysleisiwyd yr angen i ddarnio'r dogfennau trafod gan ddileu ac ychwanegu yn ôl y galw. Roedd y trafodaethau yn frwd iawn ac fe fanylwyd ar y



cynnwys ymhellach mewn grwpiau arbenigol. Llwyddwyd erbyn diwedd y Gynhadledd i dynnu'r awgrymiadau at ei gilydd i un ddogfen.

Cytunwyd un ynfrydol ar yr angen i sefydlu Canolfan i Ieithoedd Bychain Ewrop a'i lleoli yn y Plas yn Nant Gwrtheyrn.

Derbyniwyd y ddogfen fel prif ddogfen bolisi i'w chyflwyno i'r ail gynhadledd o gynrychiolwyr yr ieithoedd bychain a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn dros y penwythnos 10-12 Tachwedd, 1989.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

Ffôn:
Waunfawr 552

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ddod yn wythfed allan o saith ar hugain o fandiau mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn Llundain ddechrau'r mis.

Mae hyn yn golygu mai nhw oedd yr uchaf o holl fandiau Cymru a oedd yn cystadlu yn y pedwar dosbarth.

Hei lwc i'r Seindorf eto pan fyddant yn cystadlu ym mhrawf terfynol Pontins, Prestatyn ddiwedd y mis hwn. Bydd y canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

Enillwyr y Clwb 200 am fis Hydref oedd £20: Vashti Ward, Ty'n y Fawngog; £15: D W Evans, 5 Tai Gweledfa; £10: Mair Lewis, d/o D W Jones, Rhydfadog.

Dyma ganlyniadau y Raffl Fawr - 1. Alwyn Jones, Racca Cottage, Penisarwaun (Teledu Teletext 21 modfedd); 2. G M Owen, Bonc, Felinheli (Fiedo Mitsubishi); 3. Ceirion Thomas, 4 Dinorwig Terrace, Clwt y Bont (Popty Meicrodon Panasonic); 4. Mrs Enid Roberts, Hen Siop, Cesarea (Teledu 14 modfedd).

PLAID CYMRU: Enillwyr Clwb 100 mis Medi: £10: G P Owen, Awelon, Gallt y Foel; £8.50: Mr Gwilym Williams, Creffttau Elidir.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyrfod o'r Clwb ar Fedi 29, pryd y treuliyd y prynhawn yn trafod gwa-hanol faterion. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Jones, Mrs Laura Williams a Mrs Mary Morris. Rhoddwyd y raffl trwy garedigrwydd Miss Maggie J Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Betty W Davies.

Ar y 10fed o Hydref treuliyd prynhawn difyr iawn yng nghwmni y Parch W R Williams, Y Felinheli. Rhoddwyd y te gan Mrs Ellen Williams, Mrs Katie Griffiths a Mrs Jane C Hughes. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs E Williams a Mrs J C Hughes gan Mrs Ellen Williams. Diolchwyd i bawb gan Mrs Megan P Morris. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i dad y Parchedig W R Williams, sef Mr Charles Williams sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 2il o dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones, y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofn-

odion gan yr ysgrifennydd. Cafwyd noson yn trafod materion ynglyn â'r Sefydliad a materion eraill. Rhoddwyd y te gan Mrs Elizabeth Foster, Mrs Joan Parry a Mrs Carys Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs Carys Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 6ed.

DIOLCH: Dymuna Jean, Geraint a Bethan, priod a phlant y diweddar Caradoc Jones, 1 Tai Cynfi, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt. Diolch am y cardiau ac i'r llawer o ymwelodd â hwy yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth ac i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau.

Trosglwyddwyd y rhoddion tuag at Gronfa'r Gymuned, Clinic Deiniolen.

William John Rowlands

Wil Becar oedd o i lawer, Wil Parc i bobol Gwaun Gynfi, Wil John Tyddyn Difyr i griw bychan. Dyna i chi William John Rowlands, a fu farw ddiwedd Medi, yn 75 mlwydd oed.

Tyddyn Difyr ar y lôn uchaf oedd ei gartref cyntaf, gyda'i rieni, Bob a Leus Rowlands, ei chwaer Lizzie Elin, a'i frawd Bob. Bu farw ei dad yn 1923 yn ddyn ifanc, gan adael tri o blant o dan ddeg oed. Cyfnod o galedi mawr iddynt mae'n siwr, fel i lawer teulu arall tebyg yn y cyfnod hwnnw.

Ymhen rhai blynyddoedd, ailbriododd Mrs Rowlands efo Elis Williams y Parc, a dyna sut y daeth Wil Tyddyn Difyr yn Wil Parc.

Dyna ddechrau felly ar gyfnod dedwydd pan oedd Y Parc (sef Y Bwthyn ar y Bryn) yn ganolfan hapus i hogiau'r lôn uchaf. Anodd, yn wir amhosibl ar bapur, yw cyfleu'r miri a'r hwyl a geid wrth giât y Parc ar nos o haf.

Ar ben y Lôn ar hwyr o haf Mi gofias gwmni gynt, Pob llanc yn llawn o ddifyr ddawn

Ac ysgafn fel y gwynt.

Dechreuodd Wil a Bob gymryd diddordeb mewn beics, yna mewn moto beics, ac yna mewn ceir.

Dyna i chi ras oedd honno, tua 1938, pan reidiodd Bob ei feic bach o gae'r Ficerdy i fyny Gallt y Foel ar hyd y lôn uchaf i lawr Lôn Penybont, ac yn ôl i'r cae, ac ennill y wobr gyntaf yn Sports y pentre.

Er bod Wil erbyn hyn wedi colli ei lygad mewn damwain datblygodd i fod yn reidar moto' beic heb ei ail, a Bob wedyn yr un modd. Ychydig a feddyliai neb yr adeg honno y byddai Bob, ymhen ychydig flynyddoedd, yn 'despatch rider' yng Ngogledd Affrica, yn gwibio o gwmpas Cairo, Tobruk ac El Alamein, ac, yn llythrennol, yn mynd am ei fywyd.

Dysgodd Wil ei grefft ym Mecws John Austin yn y Waunfawr, daeth wedyn i Fecws Deiniolen, bu hefyd ym Mecws Bryngwyn a Becws Penybryn. Dysgodd y gwaith i lawer o hogiau ifanc, ac roeddynt yn cofio, ac yn parchu Wil i'r diwedd.

Dysgodd hefyd, er na chafodd wers o gwbwl, sut i ganu'r harmonica a'r accordion, a phleser oedd gwrandio arno yn mynd trwy'r hen ganeuon a ddysgodd gynt ar ei gof.

Roedd Wil yn wr tal, hardd o gorff ac yn gymeriad hwyliog a siriol. Roedd yn wr bonheddig, caredig a moesgar, ac o natur radlon. Er na fu'n byw ym Methesda ond am tua pymtheng mlynedd,

gwnaeth nifer anhygoel o ffrindiau yno, ac roedd yn uchel iawn ei barch. Roedd y dyrfa fawr a ddaeth i'w angladd, o bob un o'r ardaloedd y soniwyd amdanynt, ac o bob cylch o fywyd, yn arwydd o'r cyfeillgarwch cynnes a deimlid tuag ato.

Cydymdeimlwn â'i weddw, Neli, ac â'i blant, Yvonne ac Alwyn, a fu mor garedig wrtho, a hefyd â'r plant roedd yn llys-dad iddynt, David, Brenda, Carol a Jean, a fu mor hynod o annwyl ohono.

Cwsg yn dawel Wil, yr hen gyfaill, buost ffyddlon ar ychydig, gosodir di ar lawer. Gwyn dy fydd.

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i Alwena Morris, Cefn Coch, a John Jones, Bryn Heli, Llanrug, ar achlysur eu dywedd.

DIOLCH: Hoffai John ac E Morris, Rhiwen, ddiolch o galon i bawb o bell ac agos am y cardiau a'r anrhegion a'r dymuniadau da gan eu holl deulu a'u ffrindiau ar achlysur eu Priodas ur. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Hoffai Derek a Delyth, Trigfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y Noson Goffi i Apêl Lowri a gynhaliwyd yn Ysgol Gwaun Gynfi. Diolch yn arbennig i'r rhai a oedd yn gyfrifol am drefnu y noson. Yr ydym yn hynod o ddiolchgar am yr holl garedigrwydd a'r haelion sydd wedi ei ddangos tuag atom.

ACTORION 1935



(O'r chwith i'r dde): Ronnie Mercer; Dilys Gwenllian; William John Lewis; Bobbi Grindley; Albert Williams, Dinorwig; Rol Bwlch Bach; Griffith Peris; W J Close a Robbin Morris, Dinorwig.

Os gwn i ydi 'Lofti' yn cofio i ba bwrpas y cynhaliwyd y ddrama yma yn 1935?

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545

Cangen Plaid Cymru Deiniolen a'r Cylch

FFAIR NADOLIG

Nos Wener, Rhagfyr 1af
am 7 o'r gloch
yn Ysgol Gwaun Gynfi
Deiniolen

Mynediad: Oedolion 25c
Plant 15c

BYDD SION CORN
YNO

Anrhegion 50c

ADRODDIAD AR DDADL GLYNRHONWY

Roedd dau rybudd o gynnig gerbron Cyngor Arfon ynglyn â datblygiad Glyn Rhonwy. Roedd y Cynghorydd Jacob James, Deiniolen, am weld refferendwm yn cael ei gynnal ar y pwnc, gyda hawl i drigolion cymunedau Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug bleidleisio. Fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Pat Larsen, Penisarwaun. Cafwyd gwelliant i'r cynnig gan y Cynghorydd Charles Jones, Llanrug. Roedd yntau am weld pleidlais, 'ond oherwydd maint y datblygiad a'r canlyniadau cymdeithasol sy'n bosibl, bydd rhaid i'r nifer sydd o blaid y cynllun fod yn fwy na 50% o'r nifer sy'n pleidleisio, ac yn fwy na 40% o'r nifer o etholwyr sydd a'r hawl i bleidleisio yn ôl y Cofrestrau Etholwyr. Heb y ddau gymhwyster yma, ni ddylai'r Cyngor fynd ymlaen a'r cais.' Derbyniwyd y gwelliant gan y Cynghorydd Jacob James, ond ar bleidlais, fe'i collwyd o 11 i 18.

Yr ail gynnig oedd eiddo'r Cynghorydd Francis Jones, Llanberis, yn cael ei eilio gan y Cynghorydd O. R. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio (y Pwyllgor a fethodd ddod i benderfyniad ynglyn â'r cais yn eu cyfarfod diwethaf). Roedd am weld Cyngor Arfon yn cyflwyno cais cynllunio i ddatblygu safle Glyn Rhonwy i'r Swyddfa Gymreig.

Wrth gyflwyno'i gynnig, dywedodd iddo sefyll etholiad ar sail ei gefnogaeth i'r datblygiad, ac iddo dderbyn 'mwyafrif llethol' o'i blaid. Roedd yn wffio'r cynghorwyr rheini oedd wedi newid eu meddyliau ynglyn â'r cynllun, cynllun a oedd wedi bod yn yr arfaeth ers nifer o flynyddoedd.

Siaradodd nifer o gynghorwyr yn erbyn cyflwyno'r cais i'r Swyddfa Gymreig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Charles Jones, Llanrug, at y sylwadau a wnaeth yn y Pwyllgor Cynllunio (cyhoeddwyd hwy yn rhifyn diwethaf yr 'Eco'). Aeth yn ei flaen i gymharu safiad y Cyngor parthed a chais Wylfa B. Roedd gwaith yn cael ei gynnig yno, ond rhan o'r gwrthwynebiad oedd y byddai'r datblygiad yn tanseilio bywyd cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol yr ardal. Eto'i gyd, meddai, nid oedd

y Cyngor yn fodlon ystyried hyn yn achos Glyn Rhonwy. Mae peryglon i ieuchyd yn deillio o atomfa, meddai; ond roedd math arall o ieuchyd yn cael ei fygwth yn yr achos hwn: ieuchyd cymdeithasol, ieuchyd diwylliannol ac ieuchyd ieithyddol dyffryn Peris. Wrth gloi ei ddadl, dywedodd mai 'gormesu ein hardal y byddai'r datblygiad hwn'.

Roedd y Cynghorydd Pat Larsen, Penisarwaun, yn cydnabod iddi fod yn gefnogol i'r cynllun yn wreiddiol, ond iddi hithau wrando'r fam leol. Dywedodd mai cynrychiolwyr Cwmni Leading Leisure a'i perswadiodd i wrthwynebu'r cynllun o'r diwedd, oherwydd iddi weld mai 'cyfalafiath a dim arall' oedd yma.

'Butlins yr ail', fyddai'r cynllun yn ôl y Cynghorydd Huw Edwards, Caernarfon, a galwodd ar y Cyngor i drafod gyda'r Cyngor Sir a'r aelod seneddol y bwriad o ddod a 'gwaith go iawn' i'r ardl, ac nid cyflogau isel, tymhorol fel y rhai a ddeilliai o'r cynllun hwn.

Roedd y Cynghorydd Ieuan Llewelyn Jones, Bethesda, yn teimlo nad oedd 'anferthedd y cynllun yn cyd-weddu a'r ardal'; a dyna fam y Cynghorydd Alfred Jones, Bangor hefyd gan ddweud fod y cynllun 'completely out of character, and an environmental disaster'.

Ddaw dim ffatri i Arfon yn ôl y Cynghorydd Jack Thomas, Caernarfon. Roedd o'r fam mai 'twristiaeth ydi ein dyfodol'. Fe'i hatebwyd gan y Cynghorydd Neville Hughes, Llanllechid, a gytunai fod twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi, ond fod angen datblygu'n gymhedrol. Meddai: 'Dylai twristiaeth fod yn llaw-forwyn i Arfon, ac nid Arfon yn forwyn fach i dwristiaeth'.

Y Cynghorydd Brian Jones, Cwm-y-Glo, oedd yr olaf o'r cynghorwyr i ddatgan ei fam ar y cynnig. Dywedodd ei fod yntau hefyd wedi bod yn gefnogol i'r cynllun, ond ei fod 'yn falch iddo newid ei feddwl, a'i wrthwynebu'. Byddai'r datblygiad yn ei fam ef 'yn difetha'r ardal'.

LLYTHYR AGORED

A ANFONWYD I GYGHORWYR ARFON GAN UNIGOLION O FRO'R 'ECO'

"Yr ydym ni sydd a'n henwau isod yn annog Cynghorwyr Arfon yn eu cyfarfod ar y 23ain o Hydref i beidio a symud ymlaen i geisio hawl cynllunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer datblygu safle Glyn Rhonwy ar y llinellau a fwriedir gan Gwmni Leading Leisure."

Teimlwn y byddai cefnogaeth i'r fath gynllun anferth yn llwyr ddinistrio bywyd cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y fro hon, ac mae hynny yn bris llawer rhy uchel i'w dalu."

Y Prifardd Selwyn Griffith
Arwel Jones, Penisarwaun
Dr Dafydd Roberts
Y Parch John Pritchard
Dafydd Whiteside Thomas
Y Parch Gwynfor Williams

John Hugh Hughes
Bert Thomas, Llanberis
Annette Bryn Parri
Dei Tomos
John Roberts Williams
Ken Jones, Llanberis

Ac yna, daeth y bleidlais dyn-gedfennol.

Dyma sut y cofnodwyd y bleid-

lais (mae enwau cynghorwyr bro 'Eco'r Wyddfa' mewn print du):

O Blaid:

Y Cynghorwyr
Francis Jones, Llanberis
Llew Davies
Jack Thomas
G. Buckley Jones
Derek Hainge
June Marshall
D. Francis Jones
M. Griffith
Gwilym Williams, Waunfawr
M. Wormald
Henry Owen
Glyn Owen (Maer)
Betty Williams (Dirprwy Faer)
Meurig Williams
C. Parry

Yn Erbyn:

Y Cynghorwyr
Charles Jones, Llanrug
Neville Hughes
Pat Larsen, Penisarwaun
Ieuan Ll. Jones
Huw Edwards
Alfred Jones
Brian Jones, Cwm y Glo
John W. Williams
Winston Halliday
Michael Roberts
Mair Williams
Jacob James, Deiniolen
Hywel Jones
Margaret T. Jones

Genethod Ysgol Brynrefail yn "Enoc Huws"

Dewiswyd Tammi Jones, blwyddyn 4, a Hayley Williams, blwyddyn 2, i gymeryd rhan yn y ddrama gerdd Enoc Huws. Buont yn perfformio yn Theatr Gwynedd ym mis Awst a byddant yn perfformio yno eto ym mis Tachwedd yn ogystal â mynd ar daith o amgylch theatrau Cymru. Dyma brofiad Tammi:

Ni wyddwn pa effeithiau a gâi un gwrandawriad amaf pan gerdais i mewn i Theatr Gwynedd yn barod i roi fy nghalon i gyd yn y

sioe. Roedd tua ugain o enethod brwdfrydig yno yr un mor awyddus a minnau.

Ar ôl tridiau, daeth yr alwad ffôn derfynol yn dywedyd fy mod i wedi ennill rhan yn y ddrama gerdd, Enoc Huws. Ni fum i erioed mor falch!

Buom yn paratoi dawnsfeydd a chaneuon am fis cyfan. Roedd yr actorion i gyd yn ardderchog, yn enwedig Gwyn Elfyn, Mair Tomos Ifans, Danny Grehan, Huw Tudor ac Anwen Williams. Nid oeddynt yn ein hanwybyddu ac yr oeddynt yn barod i'n helpu gydag unrhyw fater.

Y teimlad gorau a gefais oedd ar y noson agoriadol yn sgrechian 'Wyrwys' i'r gynulleidfa.

Roedd bod yn rhan o'r ddrama gerdd hon yn bleser ac yn anrhydedd mawr. Roedd yn ffordd ardderchog i wneud ffrindiau newydd o bob oedran.

Rydym yn mynd ar daith ym mis Tachwedd ac rwy'n awyddus i gael dechrau perfformio unwaith eto. Gan na fydd Gwyn Elfyn yn gallu cymeryd rhan y tro hwn mae Gari Williams yn chwarae rhan Twm Solet. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl i na fydd y ddrama yr un mor llwyddiannus a'r tro diwethaf.

Tammi Jones

17

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

Nos Iau,
9 Tachwedd
am 6.30
yn Neuadd
yr Ysgol

CROESO CYNNES
I BAWB

Beth am ddysgu
dreifio gydag

YSGOL YRRU BETHEL

Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN Y COED: Bu dosbarth y Babanod a Safon 1 a 2 yn ffodus iawn y mis hwn o gael croesawu a gwrandio ar awduron ar daith. Daeth Mal Humphreys at y Babanod i adrodd stori Berwyn Bach a'r Ymbarel. Bu pob un ohonynt yn brysur yn gwneud llun clown hefo Mal Humphreys.

Bore lau, 12 Hydref, fel rhan o Wyl Llyfrau Plant, Awdur ar Daith, daeth Mair Lynn Hughes at ddosbarth 1 a 2. Cyhoeddodd dros ugain o lyfrau i blant a phobl ifanc gan gynnwys y gyfres, 'Wichiaid Môn'. Adroddodd un o'r storiâu wrth y plant. Yna bu'n brysur yn ateb cwestiynau.

Ond profi eu hunain yn awduron a wnaeth Safon 3 a 4 wedi iddynt feistrolir Typesetter. Bu nifer ohonynt yn cynhyrchu'r papur newyddion teipiedig cyntaf yn Ysgol Tan y Coed. Y mae rhywbeth at ddant pawb yn y papur.

Nos Fercher am 6 o'r gloch yng Nghapel Bosra cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch gan blant yr Ysgol. Anrhegwyd Mr Len Jones, cyn-brifathro'r ysgol a dymunwyd pob hapusrwydd iddo yn ei swydd newydd.

Derbyniwyd casgliad o £60 yn ystod y cyfarfod tuag at gronfa Lowri, Llanrug.

Dymuna staff a phlant yr Ysgol ddiolch o galon i Mr Selwyn Jones, am ei garedigrwydd a'i gydweithrediad tra bu yn Brifathro Mewn Gofal. Estynnwn groeso i Mr Robert Humphreys, fel pri-fathro newydd yr Ysgol. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein mysg.

GWELLHAD: Gwyddom fod nifer o oedolion yn sâl yn y pentref. Dymunwn adferiad buan ac anfonwn ein cofion atoch. Rydym yn falch o ddeall fod Mathew Philips, Waun, yn well wedi arhosiad byr yn yr ysbyty.

CLWB IEUENCTID: Pob dymuniad da i David Philips sydd newydd ei benodi yn arweinydd Clwb Ieuencid y pentref. Deallir fod amryw o weithgareddau ar y gweill.

AR Y CYFRYNGAU: O wyllo rhaglen 'O Vaughan i Fynwy', bu'n bleser o'r mwyaf glywed Arwel Jones, Pant Hywel, yn olrhain hanes Hogia'r Wyddfa, a mwynhad mawr oedd gwrandio ar huddled Mary Lloyd Williams, Llanrug, yn sôn am ei dyddiau fel

athrawes yn Ysgol Tan-y-Coed ac fel y bu iddi hi ac un arall droi i Fosra am gyhoeddiad un Sul, ond mai hi a draddodd y bregeth. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch am raglen ddifyr iawn.

I chwi bentrefwyr sy'n gwrandio ar y radio, rwy'n sicrhod bod yn cael mwynhad o wrando ar John Ogwen ac eraill yn adrodd storiâu am yr 'Home Guard' yma ym Mhenisarwaun, allan o lyfr difyr a doniol 'Cyfar Main', gan John Elis Williams.

Yn y gyfres radio 'Blas Bro', nos Sul am 5.30 p.m., porir yn y Papurau Bro dros y blynyddoedd a dewisir storiâu gwreiddiol, atgofion a hanesion am bobl a lleoedd i'w cyflwyno ar lafar. P'nawn Sul, 16 Hydref, clywyd Eurgain Haf yn darllen y stori a enillodd iddi gadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail flwyddyn yn ôl bellach, 'Gobaith'. O ddeall mai o few awr gwa, a hynny o dan oruchwyliaeth yn yr ysgol, yr ysgrifenydd y stori, anogwyd hi yn fawr i barhau gyda'i hysgrifennu. Deallwn y bydd John Elis Williams ar yr un rhaglen hefyd - y mae'n hysbyseb dda i'r Eco.

URDD BENTREF: Cynhelir cyfarfod yr Urdd, nos Fawrth, yn Ysgol Tan-y-Coed o 6 tan 7 p.m. Mae'r aelodaeth yn agored i blant o 6-15 oed a rhaid bod yn 6 oed cyn 1 Medi 1989. Tâl aelodaeth yw £1.50. Bydd diod oren a chreision ar werth ymhob cyfarfod. Dyma restr o weithgareddau mis Tachwedd: Tachwedd 7 - Ymaelodi a gêm Chwilen; Tachwedd 14 - Noson yng ngofal Leslie Larsen; Tachwedd 22 (nos Fercher) - Dawnsio Gwerin gyda Judith Harding yn Neuadd yr Eglwys; Tachwedd 28 - Noson yng ngofal Nant Roberts.

LLONGYFARCHIADAU i Elaine Lewis (4 Bryn Eglwys gynt), ar ddatlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da oddi wrth ei ffrindiau i gyd yma ym Mhenisarwaun. Pob dymuniad da i Fiona Jones, Waun, ar achlysur ei phen-blwydd yn 21ain oed.

PWYLLGOR NEUADD: Cynhelir noson o 'Hwyl a Miri', Calangaeaf yn yr Ysgol, nos Fawrth, 31 Hydref. Bydd cystadleuthau y wrach/dewin gorau, yr ysgub orau, swynion, a theisen Clangaeaf. Tynnir Clwb Can yn ystod y noson.


DIFYRRWCH Y PLANT



Dosbarth y Babanod gyda Mal Humphreys awdur 'Berwyn Bach a'r Ymbarel'.



Safon 1 a 2 gyda'r awdures Mair Wynn Hughes.



Rhai o blant Safon 3 a 4 fu'n gyfrifol am gynhyrchu papur newydd Tan y Coed.

YSGOLION SUL: Llongyfarchiadau i'r plant ar ddysgu eu gwaith mor dda ar gyfer Gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.

YSGOL SUL BOSRA: Bore Sul, 15 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch gan blant yr Ysgol Sul. Stori Komoti oedd ganddynt. Stori am ffermwr a aberthodd ei gnwd gwerthfawr o reis er mwyn achub bywydau ei ffrindiau. Da iawn chi blant am ddysgu eich gwaith.

CLWB YR HEULWEN: Cydymdeimlwyd â Mrs M. J. Roberts, 4 Llys y Gwynt ar golli ei chwaer-yng-nghyfraith. Llongyfarchwyd Mrs Eirlys Williams a Mr a Mrs Nansi Jones a Mrs Annie Williams, Meillionydd ar fod yn nain, taid a hen nain. Croesawyd dwy aelod newydd Mrs Annie Evans a Mrs R. Morris. Diolchwyc i'r rhai a fu o amgylch gyda blychau Casgliad Henoed Gwynedd. Rhoddwyd y te gan Mrs P. Williams a Mrs J. E. Jones, Llys y Gwynt a diolchir i Mrs Annie Williams, Meillionydd a Mrs M.

Rees Rhomas, Bryn Hyfryd am wneud y te y mis diwethaf. Enillydd y raffl oedd Mrs Mary Davies. Bydd y cyfarfod nesaf 21 Tachwedd.

TRIP I GAER: Bydd trip i Gaer, Sadwrn, 2 Rhagfyr. Pris £3.30. Enwau rhag blaen i Margaret Williams, Carrog, Waun. Rhif ffôn: 870716.



Elgan Price Williams oedd y gorau o'r goreuon yng Ngharnifal Penisarwaun eleni. Dyma fo wedi derbyn y tlws hardd. Llongyfarchiadau Elgan.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

MARWOLAETH: Yn dawel yn ei gartref, fore Sul, 1 Hydref, ar ôl gwaeledd byr iawn bu farw Mr Richard A. Roberts, 1 Bryn Gro yn 90 oed.

Bu'n gweithio ar y rheilffordd am dros ddeugain mlynedd ac yna ar reilffordd yr Wyddfa. Bu'n aelod ffyddlon o Eglwys Sant Gabriel, lle bu'n Warden am rai blyneddau, hefyd yn aelod a chyn-ysgrifennydd Clwb Pobl y Cwm. Ei brif ddiddordeb a'i bleser oedd garddio.

Bu ei angladd ddydd Mercher, 4 Hydref, gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel, ac yna yn dilyn ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parchg D. Noel Jones (Deon Gwlad); Eifion Williams, Llanfairfechan; a Mr Jones, Tregarth a'r organydd oedd Mr Gareth Jones, Llanberis.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Mrs H. M. Roberts a'i bedair merch, Peggy, Sylvia, Sheila a Carol a'u teulu-oedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

CLWB POBL Y CWM: Ein gwr gwâdd ar 28 Medi oedd Mr John H. Hughes, Llanberis, a chawsom ddarlith hynod o ddifyr a chynhwysfawr ganddo ar fywyd a gwaith y llenor a'r bardd, Mr T. Rowland Hughes. Aeth i'w ddilyn i'r ysgol, i'r coleg a'i lleoedd y bu'n gweithio ynddynt. Cafwyd darlleniadau o'i farddoniaeth a'i nofelau, heb anghofio ei emyn mawr 'Tydi a Roddaist'. 'Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Hughes am ei barodrwydd i ddod atom, mae ganddo wledd ar ein cyfer bob amser. Diolchwyd iddo gan Miss L. Hughes.

Rhodddwyd y baned a'r raffl gan Mrs E. M. Jones a Mrs M. Parry.

Ar ddechrau ein cyfarfod ar 12 Hydref, talodd y Llywydd, Mr Llew Hughes, deyrnged i'r diweddar Mr Richard Roberts. Cytunai pawb y bydd colled fawr ar ei ôl, gan yr ymddiddorai mewn cymaint o wahanol bethau. Yn 90 oed, ef oedd ysgrifennydd y Clwb hyd at wyliau'r haf eleni, ac anfonodd yr aelodau eu cydymdeimlad dwysaf â Mrs Roberts yn ei phrofedigaeth.

Pleser oedd cael estyn croeso i Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr atom, un arall sydd mor barod bob amser i roi ei

gwasanaeth. Gyda chymorth y sgrîn fach, cawsom ddilyn taith wyliau Mrs Jones i'r India, a thrwy ei dull arbennig o nodi ac egluro'r sleidiau, teimlem ein bod wedi dysgu llawer yn ogystal a mwynhau y daith. 'Roedd o ddiddordeb arbennig i rai o'r meibion a fu yn y gwasanaethau yn India yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Diolchodd Mr R. H. Parry i Mrs Jones.

Rhodddwyd y te a'r raffl gan Mrs M. Rowlands a Mrs M. Williams.

YR YSGOL FEITHRIN: Erbyn hyn mae Anti Carys wedi ein gadael i ddechrau ei gyrfa yn y coleg. Hoffem ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith a dymuno yn dda iddi yn y coleg. Croesawn ein hathrawes newydd Anti Gwenda o Lanberis a gobeithwn y bydd yn hapus iawn gyda ni, estynnwn groeso hefyd i'n cymorthwraig Anti Ann. Rydym yn falch iawn o gael dweud y bydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal sesiwn arall ar Fore lau ar ôl y gwyliu hanner tymor i'r rhai hyn, diolchwn i'r Prifathro, Mr Williams am ei gymorth i gael y sesiwn.

Nos Fawrth, 31 Hydref, bydd Disgo Calan Gaeaf yn yr Ysgol, 6-7.30, i rai o dan naw oed; a 7.30-9 i rai dros naw. Pris mynediad fydd 50c a bydd diod a chrisps ar werth. Gofynnwn i'r rhai ieuengaf wisgo i fyny a bydd gwobr am y wisg orau, hefyd gwobr am y dawniwr disgo gorau i'r rhai hynaf.

Bydd yr elw yn mynd i'r Ysgol Feithrin. Croeso i bawb.

UNDEB Y MAMAU, Cwm y Glo a Llanrug: Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o dymor y gaeaf nos lau, 5 Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, gan y Parchg D. Noel Jones, y Deon Gwlad. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd lluniaeth ysgafn yn Hafan Elan, a thrafodwyd rhai materion. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Betty Jones, Miss G. Griffith a Mrs D. Pierce, a diolchwyd iddynt gan Mrs Side. Rhodddwyd y raffl gan Mrs Edwards a Mrs Barlow a'i henillodd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 14 Tachwedd, yn yr Ysgol Gymunedol, Cwm y Glo.

MARWOLAETH: Yn ysbyty Eryri, Caernarfon, bu farw Mr Alun Hughes, gynt o Morda, Craigydun, ond yn ddiweddar o Gartref Pengwaith, Llanberis. Brodor o Sir Fôn oedd cyn ymfudo i'r Cwm

gyda'i deulu. Deallwn iddo gael ei hyfforddi fel peiriannydd, ac roedd yn berson amryddawn a deallgar gyda diddordeb arbennig mewn llenyddiaeth. Roedd yn gymeriad cymeradwy yn yr ardal gyda'i bersonoliaeth lednais. Roedd ganddo barch i Gapel y Tabernacl gan i'w ddiweddar dad gael ei ethol yn ddiakon, ac yno bu gwasanaeth angladdol ddydd Llun, dan ofal y gweinidog Parchg Gwynfor Williams. Ymunodd amryw o staff Cartref Pengwaith ynghyd â'r ardalwyr yn y gwasanaeth.

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO: **HANES YR HAMSTER (1):** Gyda chalon drom y cofnodwn farwolaeth Tpsi yr Hamster. Bu'n ffrind da i blant y babanod a mawr yw'r golled ar ei hól.

HANES YR HAMSTER (2): Yn dilyn ymadawiad Tpsi, cafwyd Hamster arall i'r ysgol. Dewiswyd yr enw Siwgrwr iddo. Cafodd gyflwyniad erchyll i'w fywyd yn yr ysgol. Aeth yn sownd yn yr olwyn ac wrth i Mrs Jones geisio ei ryddhau, fe'i brathodd!

Heddiw (17 Hydref) aeth Siwgrwr ar goll. Os gwelwch hi yn unlle - a fuasech mor garedig a'i throi tua'r ysgol? Mae plant Safon 1 a 2 yn ei cholli yn arw. Diolch yn fawr.

CYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON: Trefnodd y Gymdeithas wasanaeth Carolau ar 18 Rhagfyr. Cofiwch gadw'r noson yn glir.

YMWELIAD: Yn dilyn ymweliad y fan Lyfrgell, bu'r Adran lau yn ddigon ffodus i gael cwmni yr awdures Gwenno Hywyn i ddarllen stori iddynt. Profiad pleserus iawn. Diolch i Mr Jones y Llyfrgellydd am ei drefniant.

O'R COLEG: Daeth Mrs Glenda Hughes o Dregarth atom o'r Coleg

Normal ac edrychwn ymlaen at ei chwmni eto ym mis Tachwedd.

GWASANAETH: Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol gyda phawb yn cymryd rhan - o'r lleiaf hyd yr hynaf. Eleni, dewisodd y plant roi eu rhoddion i Gymdeithas Dr Barnardo. Bu Miss Nia Jones yma yn sôn am waith y Gymdeithas.

YR URDD: Bydd adran Urdd yr Ysgol yn dechrau cyfarfod ar ôl hanner tymor. Ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn trefnu'r gweithgareddau. Mwy o fanylion y tro nesaf.

Sôn am yr Urdd - fuoch chi ar y Castell Gwynt yn bowncio? Clywed fod un o'r ardal wedi cael cynnig swydd fel 'bownser' mewn clwb nos!! Un handi i'w gael wrth y drws ar noson gyngerdd, ynte.

YMDDISWYDDO: Trist oedd deall i Mr Ll. Hughes, Hyfrydle, benderfynu rhoi'r gorau i fod yn Lywodraethwr ar ôl cyfnod hir o helpu a chynghori. Diolchwn iddo o waelod calon am ugeiniau o gymwynasau a da yw deall fod Mr Hughes wedi derbyn y teitl o 'Ffrind Ysgol Cwm y Glo', a'i fod yn bwriadu ymgymeryd â'r ddyletswydd yn syth. Diolch am bopeth Mr Hughes a chofiwch peidiwch â chadw'n ddiaith.

LLONGYFARCHIADAU i Sara S. Roberts am ennill gwobr am ateb pŵs croeseiriau yn un o gylchgronau'r Urdd.

Da yw clywed fod Sara a Donna yn ymarfer bob wythnos efo Cerddorfa Ieuencid Gwynedd ym Maesincla. Daliwch ati, genod.

Am y tro, dyma derbyn ar y llith. Hwyl fawr i chi a chofiwch - os na chawsoch gerdyn post o Lundain gan Mrs Hughes o'r gegin - yr ydych mewn cwmni da. Chës inna'r un chwaith!

TAN Y COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872 276

LLONGYFARCHIADAU i Wyn Parry, Ael y Bryn ar ei benblwydd yn ddeunaw oed, 5 Hydref. Hoffai ddiolch i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau am eu caredigrwydd.

GWYL DDIOLOCHGARWCH: Ddydd Sul, 15 Hydref, bu cyfarfod Diolchgarwch plant Ysgol Sul Tancoed. Cymerwyd rhan gan y plant i gyd a'r Parchg John Morris a Beverley Ann Roberts, Mrs Carys Evans a Mrs Sharon Blanchard yn cyfeilio. Hefyd

cafwyd cyfarfod yr hwyr nos Lun, 16 Hydref, gyda phregeth gan y Parchg H. Gwynfa Roberts, Glanrhyd.

GWAELEDD: Drwg oedd gennym glywed fod Miss Nance Williams, Cartref, yn yr ysbyty; gwellhâd buan iddi.

LLONGYFARCHIADAU i Siwan Eurgain Humphreys, Pant Bryngwyn, am fod yn fuddugol am adrodd yn Eisteddfod Bentrif Llanrug.

BRYN
(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

TAC SIS
BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

SIOMEDIGAETH Y BWRDD IAITH

gan Arial Thomas

(Cadeirydd Is-bwyllgor hysbysebu y Fforwm Iaith)

Aeth Eisteddfod arall heibio a chafwyd cyfle i adolygu blwyddyn o fodolaeth y Bwrdd Iaith. Mewn sawl cyfarfod ar Faes y Brifwyl cawsom ein hatgoffa o addewidion parod Mr John Elfed Jones, Cadeirydd rhan-amser y Bwrdd Iaith, yn yr eisteddfod y flwyddyn cynt. Ond o edrych yn ôl, gwag iawn oedd yr addewidion hynny.

Ni chafwyd yr un datganiad gan y Bwrdd Iaith am bron i naw mis. Yna, wedi'r holl ddisgwyl, cyhoeddwyd "Strategaeth i'r Dyfodol", sef bwriad y Bwrdd ar gyfer y PUM mlynedd nesaf. Dim gair bod yr un dim wedi ei gyflawni yn ystod y naw mis cyntaf. I ble'r aeth yr argyfwng a'r gweithredu ar frys y cafwyd addewid ohono?

Yna, ar drothwy'r Eisteddfod cyhoeddodd y Bwrdd 'Ganllawiau' ar bolisi dwyieithog i'r sector gyhoeddus, a 'Dewisiadau Ymarferol' ar gyfer defnyddio'r Gymraeg i fusnesion preifat (sylwer y gwahaniaeth). Y farn gyffredinol yw bod y ddau gyhoeddiad fel ei gilydd yn llawer rhy wan ac amhendiant. Yn wir, y mae'r diffyg hwn yn dangos yn eglur bod rhaid cael deddfwriaeth i roi grym statudol i'r argymhellion.

A dyna'r cwbl mewn naw mis (ac eithro sicrhau hawl cofrestru

capeli yn Gymraeg ac i gynghorau ddefnyddio ffurf uniaith Gymraeg o'u henwau). Prin y bydd hyn yn ddigon i warchod buddiannau'r Cymry Cymraeg. Ond yn ôl y Cadeirydd, Mr John Elfed Jones, nid hyn yw gwaith y Bwrdd Iaith! Pwy felly sydd i warchod ein hawliau ieithyddol os nad y Bwrdd Iaith?

Nid yw'n syndod fod hygredd y Bwrdd Iaith yn prysur ddiplannu, a'r galw am Ddeddf Iaith yn cynyddu. Bellach mae aelodaeth y Cabinet Iaith wedi codi o ddeuddeg i bymtheg, a nifer o fudiadau eraill yn debyg o ymuno yn fuan. Oherwydd y cynnydd hwn, mae'r Cabinet bellach yn "Fforwm Iaith", a dyma yw ei enw yn awr. Mae'r cynnydd hefyd yn cadarnhau mai'r Fforwm Iaith ac nid y Bwrdd Iaith sydd yn cynrychioli barn y Cymry. A'r galw yn ddiymwad yw am Ddeddf Iaith gynhwysfawr.

CWMNI THEATR GWYNEDD ENOC HUWS

Yn dilyn llwyddiant y cynhyrchiad hwn yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst - mae'r cwmni'n edrych ymlaen at ail berfformio'r sioe hon yn ystod mis Tachwedd.

THEATR GWYNEDD, nos Fawrth - nos Sadwrn, 21-25 Tachwedd, nos Fawrth - nos Sadwrn, 28 Tachwedd-2 Rhagfyr, 7.30pm.

Mae un newid yn y cast, y tro hwn Gari Williams fydd yn chwarae rhan Twm Solet gan fod Gwyn Elfyn wedi dychwelyd at "Bobol y Cwm".

Mae'r tocynnau ar werth yn awr ac yn mynd yn gyflym. Mae un perfformiad i ysgolion wedi gwerthu allan yn barod.

"Ar y diwedd 'docs ond un ddeddfryd. Dyma un o gynhyrchiadau mwyaf uchelgeisiol y Theatr Gymraeg ers blyneddoddd. Mae

apêl y sioe yn bendant." (Y Cymro)

Am fwy o fanylion cysylltwch â Gwyddfif Jones, Sywddog Marchnata, Theatr Gwynedd, Ffordd Deiniol, Bangor.

GŴYL DDrama MERCHED Y WAWR ARFON

Yn ddiweddar, bu Gwyl Ddrama dan nawdd Merched y Wawr Ynys Môn. Yno yr oedd un ar ddeg cwmni yn perfformio yn Theatr Fach Llangefni. Yr ydym ninnau yn Arfon am fantgeisio ar hyn ac yn gwahodd tri chwmni i ddod i Theatr Seilo, Caernarfon ar Dachwedd 10 i ninnau hefyd gael mwynhad.

Cynhelir y cyfarfod am 7.30, a'r ticedi yn costio £1.50. Dewch yno efo'ch cyfeillion, bydd croeso i bawb.

Gŵyl Ddrama Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 1990

Cynhelir Gwyl Ddrama Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 1990 yng Nghaerfyrddin, a hynny yn Theatr Newydd yr Halliwell, Coleg y Drindod, dros y cyfnod 17-21 Ebrill, 1990.

Agorir yr Wyl ar nos Fawrth, 17 Ebrill gyda pherfformiad o 'Byddwch yn Goeden' gan Cefin Roberts a Dilwyn Roberts gan fyfyrwyr Coleg y Drindod. Comisiynwyd y Sioe Gerdd hon gan y Coleg i ddathlu agoriad swyddogol y theatr.

Ceir tridiau o gystadlu ar y 18-20 Ebrill, ynghyd â nifer o weithdai, a chaiff yr Wyl ei chloï ar nos Sadwrn, 21 Ebrill gyda pherfformiad o 'Pum Picil', cyfieithiad Emyr Edwards o ddrama Alan Ayckbourne, 'Confusions' gan Gwmni Theatr Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru.

Am y tro cyntaf yn hanes yr Wyl, bydd yr holl waith trefnu yn digwydd yn ganolog, gyda threfnwyr Eisteddfod a Gwyl yr Urdd yn y De - Elvey Macdonald (Pennaeth) a Neville Evans (Trefnydd) wrth y llyw.

Bydd Rhestr Testunau'r Wyl ar gael ddechrau mis Tachwedd.

Am fanylion pellach ynglyn â'r Wyl cysyllter â: Neville Evans, Trefnydd Gwyl Ddrama 1990, Swyddfa'r Urdd, Yr Ysgol Gynradd, Cross Hands, Llanelli, Dyfed, SA14 6SU. Ffôn: (0269) 845705.

"PUM PICIL"

Dewiswyd 'Pum Picil', cyfieithiad Emyr Edwards o 'Confusions', Alan Ayckbourne, fel deunawfed cyflwyniad Cwmni Theatr Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Mae'r ddrama yn rhan o gwrs drama TGAU 1991, a dylai fod yn boblogaidd iawn gydag aelodau'r cwmni a'r cynulleidfaoedd.

Cynhyrchydd y cyflwyniad yw Carys Edwards, darlithydd drama Coleg y Drindod, Caerfyrddin, un â phrofiad helaeth o gynhyrchu sioeau gan bobl ieuainc, ac un a fu'n llwyddiannus iawn yn ystod y flwyddyn a aeth heibio mewn cystadlaethau actio dramâu drwy Gymru benbaladr.

Bydd y cwrs yn digwydd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog dros y cyfnod 6-13 Ebrill 1990 cyn mynd ar daith o gwmpas Theatrau Cymru o'r 14-21 Ebrill, 1990.

Am fanylion pellach cysyllter â: Neville Evans, Gweinyddwr y Cwmni Theatr, Swyddfa'r Urdd, Yr Ysgol Gynradd, Cross Hands, Llanelli, Dyfed, SA14 6SU. Ffôn: (0269) 845705.

DRAENOG

Aeth dreifar bws a phobl i Blackpool am benwythnos. Yr oedynt yn dod o ardal yr Eco. Nos Sadwrn mi wnaeth ddisgyn oddi ar y stôl wrth ochr y bar ond ar y dydd Sul gwnaeth yn saff fod pawb ar y bws cyn cychwyn adref. Ar ôl mynd rhyw ddwy ffilltir stopiodd y bws a throi yn ôl - y dreifar wedi gadael ei gôt, case a'i arian yn y gwesty yn Blackpool - mae yn dda ei fod wedi cofio am ei holl griw i fynd â hwy adref yn saff.

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871781



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 3075



CURIAD CALON CYMRU

DINORWIG

Gohebydd: Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Eleni capel Ebeneser (A), Deiniolen oedd y lle 'roeddem yn cyfarfod ynddo i gynnal cyfarfodydd Sul y Beiblau. Fel arfer fe neilltuwyd cyfarfod y pnawn i wrando ar eitemau gan blant gwahanol gapeli ac eglwysir cylch, ac 'roedd yr hyn a glywsom yn ddi-ddorol ac amrywiol - carfan gref o ambell gapel a nifer bychan iawn o gapel arall. Eto i gyd fe ddangoswyd ymroddiad llwyr, ac eiddgarwch i ymgynraedd at berffeithrwydd. Fe iu ymarfer a pharatoi trylwyr, ac 'roedd hi'n amlwg bod rhai wedi bod yn egiol iawn yn paratoi'r plant a'r bobl ifanc i'n harwain mewn addoliad syml ac effeithiol. 'Roedd y cyfan yn rhoi bodlonrwydd llawn i ysgrifennydd y Mudiad ac fe aiff yr arian a gesglir i chwyddo coffrau'r Mudiad cenedlaethol.

Cymanfa ganu a gafwyd yn yr hwyr - gweinidog capeli'r cylch, sef y Parchg John Pritchard (o deulu garages Pritchard Llanberis), yn llywio'r defosiwn ac yn cadw trefn ar bethau. Ef oedd yn cyflwyno arweinydd y canu, sef Mr Hefin Jones, un o fechgyn Dinorwig sy'n byw yn Llanrug. Gwnaiff yntau waith pwysig yn ymarfer Band Ieuencid yr ardal, ac er yn honni ei ddiffyg profiad mewn arwain cymanfa ganu, fe wnaeth ei waith yn syml a diroddes, ac fe gafwyd eitemau yn ogystal gan bedwarawd offerynol o'r Band Ieuencid. 'Roedd organydd Ebeneser, sef Mr John Benjamin Jones, yn cyfeilio yn fedrus ar yr organ.

LLWYBRAU CYHOEDDUS: Trist yw meddwl nad oes neb ar hyn o bryd yn cadw llwybrau cyhoeddus yr ardal yn daclus. Fe adawyd i welltglas dyfu drostynt, a phan mae'n wlyb fe allant fod yn wirioneddol beryglus. Rhaid bod yn ofalus iawn rhag llithro arnynt, a derbyn niwed. Yr angen yw codi'r canol i'r ochrau a chreu llwybr canol o bridd coch.

Y dyddiau hyn fe welir lorïau trymion yn cludo rwbwl o rywle i chwarel Dinorwig, a rhyw syniad od gyda llaw yw gweld cario rwbwl i hen chwarel llechi wedi cau er i ni weld ar un adeg gynhyrchu llecho toi o safon uchel.

COLLI CYFAILL: Beth amser yn ôl

fe gefais ar ddeall bod fy hen gyfaill ysgol, pan aem i ysgol Llandinorwig, wedi ei alw adref o fyd amser i'r byd mawr tragwyddol. Er mai yn Nhyddyn Difyr y ganwyd ef, fe'i hadwaenid fel Wil Parc. 'Roedd wedi mynd i fyw i Fethesda ers sbel o dro bellach, ac yno y bu farw, ac fe gludwyd ei weddillion i'r Amlogfa ym Mangor. Yn anffodus i mi gan fod y gwasanaeth yno wedi ei drefnu am 9 o'r gloch y bore, roedd diffyg cyfleusterau teithio yn ei gwneud hi'n bur anodd i mi fynd yno, ond fe fu ef yn crwydro i'w hen gynefin yn bur gyson. Dichon bod rhywbeth yn ei dynnyn ôl i'w hen ardal. Fe gollodd ei chwaer, Lizzie Ellen, nifer o flynyddoedd yn ôl bellach, ac yn ddiweddarach bu farw ei brawd Bob - yntau'r un oed â minnau. 'Roedd bechgyn ac un ferch gan y diweddar Ellis Williams, Parc, cyn iddo briodi mam William John a Robert Rowlands.

Y DOSBARTH NOS: Hyfryd iawn yw cael cyfeirio at ddosbarth yr oedolion a gynhelir yn y Ganolfan, ac fe astudir barddoniaeth Gymraeg yn fwyaf arbennig. Mae nifer o Ddeiniolen yn dod i fyny i chwyddo maint y dosbarth ac fe welsom rai o Gwm-y-glo a Llanrug yn dod i fyny. Fe ddarperir yn helaeth ar ein cyfer gan y Parchg John Gwilym Jones, Bangor. Diddorol iawn yw darganfod fod barddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol gyfoes yn gyfoethog iawn, gan ei fod yn tynnu'n helaeth o gynnyrch eisteddfodau blaenorol - y naill fardd yn gweld gwerth yn yr hyn a gynhyrchwyd gan feirdd o'r blaen. Fe'n harweinig ninnau i ganfod dychymyg byw y beirdd a'r drychfeddylliau a gyflwynir ganddynt. Mae'n syn, er enghraifft, gymaint y gellir ei grynhoi mewn englyn.

SEINDORF DEINIOLEN: Er na ddaeth Band Deiniolen yn un o'r tri cyntaf yng Ngornest bandiau yn Llundain rhaid, serch hynny, eu llongyfarch tra'n llwyddo i drechu nifer llod dda o fandiau'r deyrnas. Fe fuont cyn hyn yn cymeryd rhan yng ngwyl Dewi Sant yn y Neuadd Albert yn Llundain. Pwy a wyr na ddaw'r un anrhydedd iddynt eto.

MARWOLAETH: Chwith iawn i'r rhai oedd yn ei hadnabod oedd clywed am farwolaeth Mrs Dinah

Johns, gynt o Groeslon, yn yr ardal hon, ond a fu mewn cartref henoed ym Mhwlheli, a'i nith a adwaenem ni fel 'Beti Bigil' yn gofalu'n dyner amdani. Ymgartrefodd tad Beti, sef Mr James Owen a'i briod Jane Ellen yn Bigil, ac mae gennym atgofion personol hapus am y teulu hwn. GWELLHAD BUAN: Yn ystod ein gwyl ddiolchgarwch fe gawsom y newydd bod Mrs Dora Jones, gynt o Bryn Hyfryd, wedi syrthio a thorri ei chlun, ac fe gofiwn iddi dorri ei chlun arall beth amser yn ôl. Bydded iddi dderbyn pob esmwythad.

CROESO: Fe garem groesawu Mrs Smith, Blue Peris Cottage, i'r ardal. Priodwyd hi â Mr Smith yng Nghapel Berea, Bangor. Sais yw Mr Smith ond Cymraes yw ei briod, ac mae eisoes wedi gwneud ei hun yn gartrefol trwy fynychu oedfaon yng Nghapel Dinorwig (M.C.). Boed i'r ddau bob bendith.

DIOLCH: Dymuna John Peris Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll am y rhoddion, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae'n

diolch yn arbennig i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Wardiau Glyder ac Aran. Diolch yn fawr i bawb.

Diddorol i ni yn Sardis oedd gweld crynodeb o anerchiad a draddodwyd gan Mrs Gaenor Thomas, priod y Parchg James Aneurin Thomas. Mae hi'n byw yng Ngwmndâr. Un ferch ymysg nifer o frodyr oedd Mrs Thomas i Mr a Mrs Robert Jones a fu'n byw nifer o flynyddoedd bellach yn Nhy Capel Sardis. Testun ei haraith oedd 'Arwyddion yr Amserau a'r Her i'r Eglwys'.

Dyrchafu'r Chwiorydd yn Sardis, Dinorwig

Llongyfarchwn heddiw ein chwiorydd ffyddlon
Ddyrchafwyd i'r Orsedd uwch-law'r ffynnon
O linach hen deulu'r Foel Bedydd wragedd dilyn
Dyna gefndir ein dwy chwaer - Megan ac Alys.
Ei ffyddlondeb a'i hymroddiad yn Sardis sydd eithriadol
Amserol a haeddiannol yw'r anrhydedd o'ch ethol
Bydded i chwi iechyd amynedd a gras yn gyfamserol
Ac i'r Eglwys yn Sardis dderbyn bendithion arhosol.

CLWB FFERMWYR IFANC

Cychwynwyd tymor newydd Ffermwyr Ifanc Caernarfon ar nos Fawrth, 19 Medi. I groesawu'r hen aelodau a'r rhai newydd i'r clwb cafwyd helfa drysor. Roedd pawb wedi blino erbyn y diwedd, ond hefyd, roeddynt wedi mwynhau eu hunain.

Y nos Fawrth canlynol, sef 26 Medi, cwis oedd wedi cael ei drefnu ar ein cyfer. Roedd pawb oedd yn bresenol wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Ein gwestai yn y clwb ar y 3 Hydref oedd Mr Gwilym Williams, Rhostryfan. Daeth i'r clwb i ddangos sleidiau i ni ar ei ymweliad at Awstralia.




Yr wythnos ganlynol, sef 10 Hydref, cafodd y clwb siom. Roedd Mr Williams i fod i ddod i siarad am ddiogelwch fferm ond ni allai ddod felly cafwyd noson o chwaraeon. Cafodd pawb hwyl iawn wrth chwarae.

Yn ystod y flwyddyn bu nifer o aelodau y clwb yn cynrychioli'r sir mewn nifer o gystadleuthau. Yn cynrychioli'r sir mewn cystadleuaeth barnu biff yn Sioe Frenhinol Cymru bu Helen Jane Jones a Rachel Griffiths. Yn cynrychioli'r sir mewn cystadleuaeth nofio bu Gail Warrington, Sioned Parry, Robin Warrington ac Aled Jones. Llongyfarchiadau iddynt i gyd am gael eu dewis a gwneud mor dda.

APÊL
YMCHWIL Y GALON
Cardiau Nadolig Cymraeg
ar werth gan
Mrs Mal Parry,
2 Bryn Heli,
Ffordd Glanffynnon,
Llanrug.
Ffôn: Caernarfon 4385.

Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD
Fframwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS
870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch



Mae Teledu'r Tir Glas yn cynnal
GWRANDAWIADAU
ar gyfer y rhaglen canu ysgafn
"TARO TANT"

Dydd Llun, Tachwedd 13eg - YSGOL GLAN CLWYD,
LLANELWY

Dydd Mawrth, Tachwedd 14eg - YSGOL Y MOELWYN,
BLAENAU FFESTINIOG

Dydd Mercher, Tachwedd 15eg - YSGOL SEGONTIUM,
CAERNARFON

Dydd Iau, Tachwedd 16eg - YSGOL GYFUN, LLANGEFNI

Os am ddod i'r gwrandawiadau cysylltwch â:

Teledu'r Tir Glas, Maesincla, Caernarfon, Gwynedd
(0286) 5766

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Ian Robert, 21 Bro Rhos, ar ennill medal aur mewn cystadleuaeth arlunio a oedd yn agored i blant y byd (International Exhibition of Children's Art) a gynhaliwyd yn Tokyo yn ddiweddar.

Mae Ian, sydd yn 15eg oed, yn ddisgybl y pumed flwyddyn yn Ysgol Syr Hugh Owen.

LLWYDDIANT YN BOWLIO: Yng nghlwb bowlio Caernarfon yn ddiweddar chwaraewyd pen-camwriaeth am gwpan yr ieuenctid, gyda dau o hogiau'r pentref yn y rownd derfynol.

Yr enillydd oedd Steven Allan, Ffridd, gyda Ian Roberts, 21 Bro Rhos yn ail. Llongyfarchiadau i'r ddau.

LLONGYFARCHIADAU i Bethan Fôn Jones, Bro Dawel ar ennill y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth canu dan 10 oed yn Eisteddfod Melin y Goed, ger Llanrwst. Llongyfarchiadau i Bethan hefyd ar ddod yn drydydd ar chwarae'r piano yn Eisteddfod Caernarfon.

DIOLCH: Dymuna Elwyn Parry, 11 Tan y Buarth ddiolch o galon i'r perthnasau a ffrindiau am y llu cardiau ag anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 18 oed.

YSGOL FEITHRIN: Bore Coffi Nadolig yn y Neuadd, bore Gwener, 1 Rhagfyr am 10 o'r gloch. Dewch i fwynhau paned a 'mince-pie' ac amrywiol stondinau, gwobrwon raffl gwyh ac adloniant gan y plant bach. Mynediad 50c. Croeso cynnes i bawb.

CLWB Y RHOS: Agorwyd tymor newydd Clwb y Rhos dan lywyddiaeth yr Is-Lywydd, Mr Bobby Haines mewn cyfarfod yn yr Ysgol, nos Lun, 9 Hydref. Roedd y noson dan ofal Mr Gwilym Jones, Y Post. Dangosodd Mr Jones fideo ar fwjs, adar sydd yn agos iawn at ei galon. Wedi'r fideo cafwyd sgwrs ddiddorol am fridio adar. Yn y cyfarfod talwyd teyrnged i Mr O. R. Parry a fu farw yn ystod yr haf.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno a'r Clwb ac os oes unrhyw un yn dymuno ymaelodi dylent gysylltu ag un o aelodau'r Clwb.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch plant Ysgol Sul Y Cysegr yn y capel prynhawn Sul 15 Hydref. Cafwyd cyfarfod

bendithiol iawn gyda'r plant, fel arfer, yn gwneud gwaith da iawn. Thema'r cyfarfod oedd 'Gofalu am Fyd Duw'.

Cynhaliwyd Gwasanaethau Diolchgarwch hefyd brynhawn a nos Lun, 16 Hydref.

EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL: Cynhelir yr Eisteddfod Gadeiriol yn y Neuadd ddydd Sadwrn, Tachwedd 11, am 1 a 6 o'r gloch. Edrychir ymlaen at eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

Nos Wener, 3 Tachwedd am 7.30 bydd arddangosfa o gynnyrch cystadleuthau Gwaith Llaw, Coginio a Chelf.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn yr Ysgol - y noson o dan ofal Bethanne Williams, Llanrug. Cafwyd sgwrs ddifyr i gychwyn, ar sut y bu iddi ymddiddori mewn Dawnsio Gwerin, ac yna bu'r aelodau wrthi yn dawnsio am tua hanner awr. 'Roedd y baned, wedi ei pharatoi gan Mair Read, Mary Evans ac Ellen Ellis, yn dderbyniol iawn. Enillydd y raffl oedd Rita Williams.

Ar 15 Tachwedd bydd y gangen yn ymweld â Choleg Glynllifon, pryd y bydd Antoinette Hughes yn ein diddori.

YR URDD: Erbyn hyn mae Cangen yr Urdd wedi ail ddechrau gweithgareddau ar ôl seibiant dros yr haf, ac mae tua 65 o blant wedi ymaelodi.

Ar nos Iau, 19 Hydref, bu Geraint George yn rhoi sgwrs a dangos sleidiau ar Fyd Natur yn Eryri ac Arfordir Cymru.

Mwynhaodd y plant yn fawr iawn, a diolchwyd iddo gan Meilyr Emrys.

Y NEUADD GOFFA: Erbyn hyn bydd nifer o'r pentrefwyr wedi derbyn llythyr oddi wrth trysorydd Pwyllgor y Neuadd yn eu gwahodd i ymuno a'r Clwb 100. Mae eisoes nifer dda iawn yn aelodau o'r Clwb 100 ac os y gellir ei godi i fod yn Glwb 200 neu yn Glwb 300 byddai yn ffordd hwylus iawn o gasglu arian tuag at y nod o £16,000 fydd ei angen ymhenni blwyddyn os yw'r pentref am gael Neuadd deilwng o'r pentref.

DIOLCH: Hoffai Maldwyn a Gwen, Minfordd, Llanrug, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu mherch Gwenllian.


DIGWYDDIADAU YSGOL BETHEL



Cymerwyd y cyfarfod diolchgarwch eleni gan blant dosbarth 3 a'r Parch W. R. Williams. Cyflwynwyd y casgliad o £35 i Ganolfan Oedolion Segontium.



Yr awdures Mair Wynn Hughes gyda phlant dosbarth 1 ar ôl ei sgwrs am ei nofelau plant.



Plant dosbarth 3 a 4 yn paratoi ar gyfer cyngerdd Selwyn Griffith.

Am bob math o
WYDR wedi ei
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD
cysylltwch â
Barrys
GLASS



Camelot
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 870486

CRIB
COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser



CYNLLUN
ORIAU HAMDDEN

Edrychwn am bobl o bob oed a chefnidir i fod yn rhan o'r cynllun unigryw hwn i agor drysau newydd ac ehangu profiad ein gweithwyr o'r byd mawr o'u hamgylch. Os ydych yn byw yn Arfon beth am rannu eich amser rhydd gyda gweithwyr Antur Waunfawr.

Cysylltwch a: GRACE JONES neu HYWEL V. EVANS
Bryn Pistyll, Waunfawr, Caernarfon. Ffôn: Waunfawr
721.

Dyddiadur y Mis

TACHWEDD

1. Mercher. Llanrug: 7.00
Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr.

2. Iau. Caeathro: Noson Gaws a Gwin yng Nhafarn Glan Gwna.

3. Gwener. Llanberis: Te yr Henoed.

Yr Ardal: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.

Llanrug: Cyfarfod Cyhoeddus - Apêl Bryn Afon - Capel Hermon, 7.00.

4. Sadwrn. Llanrug: Coelcerth a Thân Gwyllt ar y Cae Chwarae 6 o'r gloch.

Waunfawr: Urdd - Noson Guto Ffowc yn y Ganolfan. Noson i'r teulu.

7. Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau.

Penisarwaun: Yr Urdd 6-7 o'r gloch. Ymaclodi a Gêm Chwilen.

Caernarfon: Ail-agor Apêl Bryn Afon, Llanrug.

8. Mercher. Yr Ardal: Pleidleisio ar agor adeiladau trwyddedig ar y Sul. 8 y bore hyd 9 yr hwyr.

9. Iau. Yr Ardal: Eisteddfod Ysgol Brynrefail am 6.30 o'r gloch.

10. Gwener. Yr Ardal: Theatr Seilo am 7.30. Merched y Wawr, Rhanbarth Môn yn cyflwyno tair drama fer.

14. Mawrth. Penisarwaun: Yr Urdd. Noson yng ngofal Ieslie Larsen am 6 o'r gloch.

Cwm-y-Glo: Cyfarfod o Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gymuned.

15. Mercher.

16. Iau. Llanrug: Ysgol Brynrefail. Cyngerdd am 7 o'r gloch at Gronfa Apêl Manon.

17. Gwener. Llanberis: Te yr Henoed.

Caeathro: Noson Caws a Gwin yn y Dalar Deb, Bontnewydd. Tocynnau oddi wrth Clive James.

18. Sadwrn.

19. Sul.

20. Llun. Llanrug: Merched y Wawr. Ymweliad â Theatr Gwynedd.

Penisarwaun: Yr Urdd. Dawnsio Gwerin gyda Judith Harding yn

Neuadd yr Eglwys am 6 o'r gloch.

23. Iau.

24. Gwener. Llanberis: Ffair Nadolig Clwb yr Henoed.

Neuadd yr Ysgol Brynrefail: Cyngerdd gyda Pharti Eryri, Hogia'r Wyddfa a Rosalind a Myrddin. Elw at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1990.

28. Mawrth. Penisarwaun: Yr Urdd. Noson yng ngofal Nant Roberts.

29. Mercher.

30. Iau.

RHAGFYR

1. Gwener. Deiniolen: Plaid Cymru. Ffair Nadolig gyda Siôn Corn am 7 o'r gloch yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Llanberis: Cyngerdd Côr Meibion y Traeth - Capel Coch am 7.30 o'r gloch.

2. Sadwrn. Penisarwaun: Trip Siopa 'Dolig i Gaer.

IRMA CHILTON YN YSGOL BRYNREFAIL

Dydd Mawrth, Hydref 10, cawsom ymweliad gan Irma Chilton, nofelydd enwog, yma yn ysgol Brynrefail, Llanrug. Bu hi'n siarad am ei nofel newydd 'Y Mochyn Gwydr' a enillodd iddi hi Fedal yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru y flwyddyn yma. Roedd yn andros o ddiddorol gwrando ami yn sôn am ei gwaith a sut aeth ati i'w wneud. Bu hi'n siarad am sut y cafodd ei syniadau i'w llyfrau a sut mae pob cymeriad yn cael ei adnabod ganddi fel rhywun byw iawn sy'n rhan o'i bywyd iawn pob dydd hi. Soniodd sut aeth hi ati i ddrafftio ei gwaith mwy nag unwaith nes ei fod yn plesio, fel y buom ni yn ei wneud y flwyddyn diwethaf pan fuom ni'n ysgrifennu nofelau ein hunain. Roedd yn brofiad ac yn bleser ei chyfarfod.

Sioned Jaques 3D

CYMDEITHAS THEATR CYMRU

Y dramodydd Huw Roberts o Bwllheli yw Llywydd newydd Cymdeithas Theatr Cymru. Mae Mr Roberts yn adnabyddus trwy Gymru am ei ddramâu llwyfan poblogaidd ac am ei waith teledu. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgorau Drama Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru ac o Banel Drama Sefydlog yr Eisteddfod Genedlaethol.

Eleni, penderfnodd Cymdeithas Theatr Cymru gynnal ei Chyfarfod Blynnyddol yng nghlwm wrth noson gymdeithasol. Cynhaliwyd y Cyfarfod cyn perfformiad gan Theatr Gorllewin Morgannwg o Vanessa Drws Nesa' yn Theatr Gwynedd, Bangor. Bydd y Gymdeithas yn parhau â'r arbrwf hwn y flwyddyn nesaf gan gynnal ei Chyfarfod Blynnyddol mewn rhan arall o Gymru.

Yn ei Adroddiad Blynnyddol amlinellodd y Cadeirydd, Gareth William Jones, y gwaith yr oedd Cymdeithas Theatr Cymru wedi ei chwblhau yn ystod y flwyddyn.

Parhadodd y Gymdeithas i roi cefnogaeth a chyngor i awduron, rhoddodd gyhoeddusrwydd i waith y cwmnïau, cyhoeddodd ddau rifyn o'i phapur newyddion Cyntedd, bu'r cynllun o roi Tocynnau Mantais i'w haelodau sy'n eu galluogi i gael gostyn-giadau o hyd at 15% ar bris tocynnau mor boblogaidd ag erioed, a bu'n cylchlythyru ei haelodau'n gyson gyda Thaflen Newyddion.

Cyfeiriodd hefyd at y sylw a gafodd Cymdeithas Theatr Cymru yn y wasg yn ddiweddar yn dilyn erthygl ddadleuol yn y rhifyn diwethaf o Cyntedd. 'Gan bod Cymdeithas Theatr Cymru yn cynrychioli dioddordebau'r gynulleidfa Gymraeg, mae'n ddyletswydd arni i holi cwestiynau am gyflwr y theatr yng Nghymru,' meddai, gan ychwanegu y byddai'n parhau i wneud hynny ac i ddatgan barn ar faterion o bwys yn ymwneud â'r ddrama Gymraeg.

Ond y sialens a osododd y Gymdeithas iddi hi ei hun ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw cynyddu nifer ei haelodau. Ar hyn o bryd mae gan Gymdeithas Theatr Cymru ychydig dros 850 o aelodau. 'Y nôd yw codi'r ffigwr hwn i dros fil o aelodau,' meddai Gareth William Jones, 'er mwyn datblygu'r Gymdeithas nid yn unig i fod yn llais cryf dros y gynulleidfa Gymraeg, ond hefyd yn gorff cymdeithasol o bobol sy'n ymddiddori yn y gelfyddyd orau sydd, sef y Theatr.'

Cystadleuaeth Fewnol Band Llanrug




Cystadleuwyr ac enillwyr unawdau, deuawdau a phedawarawdau ieuencid Band Llanrug.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CHWARAEON

I'R ALPAU AM 6 MIS

Uchelgais Michael Wroe, disgybl chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail ag sydd a'i gartref yn y Waunfawr yw bod y cyntaf i gynrychioli Cymru am sgio yng ngemau Olympaidd y Gaeaf, un ai yn 1994 neu '98.

Daeth hwb i'w obeithion yn ddiweddar mewn ffurf ysgoloriaeth sy'n werth £2,000 i fynychu Ysgol Sgio arbennig yn yr Alpau yn Ffrainc am 6 mis, o ddiwedd Hydref hyd at Ebrill y flwyddyn nesaf. Yno caiff hyfforddiant llawn amser gan rai o arbenigwyr gorau'r byd tra ar yr un pryd yn parhau â'i astudiaethau lefel 'A'. Y mae angen mwy o arian arno, wrth gwrs, ac ar hyn o bryd mae wrthi'n ddyfal yn cysylltu â chwmnïau lleol gan eu gwahodd i'w noddi yn y fenter.

Fe enillodd Michael bencampwriaeth agored Cymru ddechrau mis Hydref, ac ef oedd seren tîm Cymru a ddaeth yn ail i Loegr, gyda'r Alban yn drydedd mewn cystadleuaeth rhyngwladol. Daeth yn ail hefyd ym mhencampwriaethau Prydain ar y 15ed o'r mis ac ar yr un penwythnos ef fu'n fuddugol yn y bencampwriaeth i rai dan 18 oed.



Michael yn osgoi un o'r polion slalam ar y llethr sych. Sylwch ar y penderfyniad sy'n amlwg ar ei wyneb.

RAS ANTUR WAUNFAWR

Cafwyd tywydd bendigedig ar gyfer Ras Antur Waunfawr a gynhaliwyd ar Fedi 30, gyda thri deg yn rhedeg yn y ras 10k.

Am y trydydd tro mewn pedair blynedd enillwyd y ras gan Tegid Roberts o Glwb Eryri Harriers mewn amser o 35 munud a 49 eiliad. Yr ail oedd Mathew Ward: 38.02. Haf Parry oedd yn gyntaf yn adran y merched mewn amser o 46 munud 25 eiliad.

Rhedodd dros wyth deg yn y Ras Hwyl. Roedd tri tîm yn cystadlu yn yr adran i rai dan anfantais am Gwpan B & K Williams, a'r enillwyr eleni oedd Canolfan Glanrafon, Glannau Dyfrdwy, gyda tîm o 12.

Dymuna Antur Waunfawr ddiolch i bawb a noddodd y Cwpanau, y rhedwyr a'r bobl leol am wneud y diwrnod yn un mor llwyddiannus.



TIMAU PÊLDROED YSGOL BRYNREFAIL

Canlyniadau Gemau'r mis

Dyffryn Nantlle (oddi cartref)

Blwyddyn 1 – ennill 15-0. Blwyddyn 2 – ennill 3-2. Blwyddyn 4 – ennill 8-1.

Pwllheli (gartref)

Blwyddyn 1 – ennill 6-4 (Cwpan Nabisco); Blwyddyn 3 – ennill 4-1; Blwyddyn 5 – colli 4-2 (Cwpan Bryn Davies)

Caernarfon (gartref)

Blwyddyn 2 – ennill 7-4; Blwyddyn 4 colli 7-1; Bechgyn Hyn – colli 5-1 (Cwpan Ken Phelps).

PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Daeth diwedd y tymor ar yr 17ain o'r mis a ninnau'n dal i ddisgwyl am y llif mawr brown a fyddai'n caniatáu i'r eogiaid a'r sewin gychwyn ar eu taith i fyny'r afon tuag at y gwelyau claddu. Mae'n wir i ni dderbyn peth glaw, ac i hwnnw godi lefel yr afon ddigon i ryddhau ychydig o bysgod i'w taith, ac yn y deg diwrnod diwethaf o'r tymor fe glywais am rai a gafodd eu bachu rhwng Glan Gwna a Phenllyn; ond ychydig iawn oedd y rhif i'w gymharu ag arfer.

Cododd James Carr o Lanrug, yn sgota â phluen, un 14½ pwys a phedwar arall o ddeutu'r saith bwys, a deallaf i Tommy Brown o Gaernarfon ddal unarddeg, pob un yn pwyso rhwng 7 a 9 pwys.

Ymysg eraill a brofodd lwyddiant y mae Gwynfor Jones o Lanrug (4 tua'r 6 phwys), Stephen Carr, Llanrug (3 yn 7 bwys yr un), Merfyn Harris o'r Felinheli gyda 5 tua'r 7 bwys, Vic Jones o Benisarwaun yn codi un 7 bwys yn Stablau ac Aled Evans, gynt o Gwm-y-Glo, hefyd yn Stablau yn dal sgodyn 7 bwys.

Prin fu nifer y sewin a ddaliwyd drwy gydol y tymor, a'r rhai trymaf yn pwyso 4 pwys, un yr un i Alan Ginsberg o Fethel a Gwynfor Jones o Lanrug.

Gwn i Ron Thomas o Lanberis godi sawl un yn pwyso tua 2 bwys o'r afon yng nghyffiniau Cwawia, ac mae yna rhyw si ei fod am roi gwersi yn ystod misoedd y gaeaf i'w frawd Clifford o'r Felinheli sy'n rhoi enw da'r teulu fel sgotws i lawr gan ei fod yn cyrraedd adre'n wastad gyda'i gawell yn wag!

Gresyn fy mod yn gorfod diweddu ar nodyn mor ddigalon, ond teimlaf fod yn rhaid i mi, drwy gyfrwng tudalennau'r Eco, ofyn i unrhyw un sydd yn gweld fandaleiddio buddiannau'r Gymdeithas i roi gwybod i unrhyw un o aelodau'r pwyllgor. Yn anffodus, mewn un pentref yn unig, sef Llanrug, ac yn enwedig felly yng Nghrawia y mae'r malu yma yn broblem, ac mae'r Gymdeithas yn benderfynol o roi terfyn arno.

PÊLDROEDWYR YSGOL BRYNREFAIL

Fe wnaeth y tîm dan 14 oed yn arbennig o dda mewn twrnament ym Mhwlheli yn ystod y mis. 'Roedd yr hogia yn mynd i'r gêm olaf yn y gystadleuaeth ag angen rhannu'r pwyntiau yn erbyn Caernarfon i ennill y bencampwriaeth. Yn anffodus bu'n rhaid iddynt fodloni ar ddod yn ail gan i hogia'r dre gipio'r fuddugoliaeth â gôl yn eiliadau ola'r gêm.

Er hynny, roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod, a drefnwyd gan Mr Dafydd Owen, Pennaeth Addysg Gorfforol ym Mhwlheli, ac mae nifer o fechgyn yr ysgol yn debygol o gael eu dewis i chwarae i dîm y Sir.



Yn y llun uchod, o'r chwith i'r dde, yn y cefn: Sion Wyn Hughes, Andrew Jones, Gwion ap Llwyd, Barry Thomas, Neal Hughes, Emllyn Cole Jones; yn y blaen: David Jones, Simon Murphy, Gavin Allen, Aaron Wagg a Michael Moran. (Llanrug) i garfan ysgolion Arfon o dan 13 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Ian Hughes o Lanberis ar gael ei ddewis yn aelod o dîm Ysgolion Gogledd Cymru dan 15 oed. Y cam nesaf fydd y gêm yn erbyn Ysgolion y De yn Aberystwyth ar y 4ydd o Dachwedd i ddewis tîm Ysgolion Cymru. Pob hwyl i Ian, ac fe obeithiwn ei weld yn gwisgo crys coch ei wlad cyn diwedd y tymor.

Dewiswyd Aled Griffith o Fethel a Gavin Allen o Ddeiniolen i garfan dan 15 oed ysgolion Arfon, ac hefyd Simon Williams (Deiniolen), Euron Davies (Llanberis), Jonathan Davies (Llanrug) ac Ieuan Parry



IAN HUGHES